# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2019<br>AM 2.00 O'R GLOCH | | TUESDAY, 19 FEBRUARY 2019<br>At 2.00 PM |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke<br>01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mr Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD - 9 HYDREF. 2018** (Tudalennau 1 - 8)

- Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **CYFLWYNIAD - YSGOL GYMUNED RHOSYBOL**

Derbyn cyflwyniad gan Ysgol Gymuned Rhosybol.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG MÔN 2017/18** (Tudalennau 9 - 32)

- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2017/18.

- Arfarnu Cynllun Gweithredu CYSAG.

Cyflwyno Crynodeb y Cadeirydd ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2017/18.

5 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 33 - 36)

Cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas ag arolygiadau Estyn (Hydref 2018) ynglŷn â'r ysgolion canlynol:-

- Ysgol Talwrn
- Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch

6 **HUNAN ARFARNIADAU YSGOL** (Tudalennau 37 - 52)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan Ysgol Gymuned Rhosybol, Ysgol Llanfairpwll, Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Y Fali.

7 **CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR** (Tudalennau 53 - 54)

I adolygu Cyfansoddiad CYSAG Môn.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 55 - 74)

Cyflwyno cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Llanilltud Fawr ar 20 Tachwedd 2018.

9 **GOHEBIAETH**

Derbyn unrhyw ohebiaeth.

10 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi bydd y cyfarfod nesaf y CYSAG ar 25 Mehefin 2019.

11 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A (categori 16) y Ddeddf."

12 **AELODAETH DYNEIDDIOL CYSAG YNYS MÔN**

I ystyried cais i aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr lleol gael ymuno â CYSAG Môn.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2018

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol**

Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb Annibynwyr Cymru)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

**Cynrychiolydd yr Athrawon**

Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**WRTH LAW:** Mrs Helen Bebb (Ysgol Uwchradd Porthaethwy) (Ymgynghorydd y CYSAG)
Mrs Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad)
*(Clerc y CYSAG)*
Y Parch Tracy Jones (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Glyn Haynes
Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a rhoes groeso arbennig i Mrs Gwyneth Hughes, Mrs Helen Bebb a’r Parchedig Tracy Jones i’r cyfarfod. Dywedodd y byddai Mrs Gwyneth Hughes yn gweithredu fel Clerc y CYSAG am y cyfarfod hwn heddiw ac y bydd Mrs Helen Bebb, sef Pennaeth Addysg Grefyddol Ysgol David Hughes, yn gweithredu fel Ymgynghorydd Her y CYSAG am y 12 mis nesaf.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD – 18 EBRILL, 2018

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar yr isod:-

**Materion yn codi**

**(2) - Cofnodion**

- Cafodd ymateb Mr Rhun ap Iorwerth, AC i benderfyniad Pwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru ar y ddeiseb addoli ar y cyd ei anfon at aelodau'r CYSAG ar 9 Mai, 2018.
- Ymhellach i bryderon y CYSAG ynghylch prinder hyfforddiant addas i athrawon AG drwy gyfrwng y Gymraeg, dywed Yr Athro Euros Wyn Jones y bydd Mr Rheinallt Thomas, fel Llywydd yr Eglwysi Rhydd yng Nghymru, yn codi'r mater mewn cyfarfod fforwm o'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg a'r Colegau Addysg Uwch ac yn adrodd yn ôl i'r CYSAG yn y man.
- Nodwyd bod y templed newydd ar gyfer adroddiadau hunanarfarnu ysgolion wedi cael ei rannu gyda'r CYSAG.

**(3) - Crynodeb y Cadeirydd o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2016/17**

Cadarnhawyd bod copi o Grynodeb y Cadeirydd wedi cael ei anfon at y Pennaeth Dysgu fel y gellir cwblhau'n derfynol Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2016/17.

**(4) – Safonau Addysg Grefyddol**

Oherwydd y rhaglen lawn, ni fu modd cynnwys 'Addoli ar y Cyd mewn Ysgolion' ar raglen Cymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd yn Ynys Môn ar 6 Gorffennaf, 2018.

**PENDERFYNWYD bod y Cadeirydd, ar ran y CYSAG, yn gofyn am i 'Addoli ar y Cyd mewn Ysgolion' gael ei gynnwys ar y rhaglen ar gyfer ei drafod yn yng nghyfarfod nesaf Cymdeithasu CYSAGau Cymru.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**(5) – Cefnogaeth ar gyfer y Dyfodol**

Nodwyd nad yw Mr Arwyn Thomas, Prif Weithredwr GwE, wedi ymateb i ohebiaeth y Cadeirydd yn mynegi pryderon y CYSAG fod cefnogaeth Miss Bethan James i GYSAG Ynys Môn wedi cael ei thynnu'n ôl heb air o rybudd ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Mr Arwyn Thomas, yn mynegi siom y CYSAG nad yw wedi ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cadeirydd.**

- **Bod y CYSAG yn gwahodd Mr Thomas i fynychu ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2019.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

- Dywedodd y Cadeirydd fod y Pennaeth Dysgu wedi trefnu i Benaethiaid Adrannau Addysg Grefyddol pob un o'r 5 ysgol uwchradd yn Ynys Môn weithredu fel Ymgynghorwyr Her i'r CYSAG, gan ffeirio bob blwyddyn.

  Cytunodd y CYSAG i fonitro'r sefyllfa ond roedd yn teimlo nad oedd modd i'r trefniant hwn ddiwallu'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ei angen arno i ymgymryd â'i rôl a'i gyfrifoldebau. Roedd aelodau'r CYSAG yn pryderu y byddai athrawon yn cael eu rhoi dan fwy o bwysau i gymryd dyletswyddau ychwanegol pan maent eisoes yn rhy brysur.

- Nodwyd bod yr Aelod Portffolio Addysg wedi cael ei hysbysu am bryderon y CYSAG ynghylch y ffaith bod GwE wedi tynnu'n ôl gefnogaeth ac arweiniad Ymgynghorydd Her GwE i'r CYSAG.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams, AC, wedi ymateb i bryderon a godwyd gan y CYSAG bod y cwricwlwm TGAU ar gyfer AG yn rhy feichus a bod prinder adnoddau ar gyfer dysgu AG drwy gyfrwng y Gymraeg.

  **PENDERFYNWYD bod y CYSAG yn monitro'r sefyllfa gyfredol a'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a'i fod yn gweithredu ar adborth gan athrawon AG yn y man.**

  **Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

- Nid yw Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi ymateb i gais y CYSAG yn gofyn i'r Eglwys enwebu aelod i'w chynrychioli ar y CYSAG.

  **PENDERFYNWYD bod Clerc y CYSAG yn ysgrifennu at Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gofyn i'r Eglwys enwebu aelod i'w chynrychioli ar y CYSAG.**

  **Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

- Dywedodd y Cadeirydd bod sedd wag hefyd ar y CYSAG ar gyfer aelod o'r sector dysgu.

  **PENDERFYNWYD bod Clerc y CYSAG yn gofyn am enwebiadau o blith athrawon am rôl cynrychiolydd athrawon ar y CYSAG.**

  **Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AM 2016/17

Mabwysiadwyd yr adroddiad uchod gan y CYSAG yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Ebrill, 2018.

Dywedodd y Cadeirydd y cafodd y Cynllun Gweithredu ei lunio gan Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Her GwE ar y pryd a'i fod yn seiliedig ar y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad.

Mynegodd y CYSAG bryderon nad oedd y Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddiweddaru a bod ansicrwydd ynghylch pwy fydd yn paratoi Adroddiadau Blynyddol y CYSAG yn y dyfodol. Awgrymwyd a chytunwyd gan y CYSAG y byddai'n gofyn am arian drwy'r Pennaeth Dysgu, gyda golwg ar brynu arbenigedd allanol i ymgymryd â'r dasg o baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18, sy'n ofyniad statudol.

Nodwyd bod rhai o aelodau'r CYSAG yn teimlo nad oeddynt wedi cael cyfle i ymgymryd â'u dyletswyddau'n llwyddiannus o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Clerc, ar ran y CYSAG, yn gofyn am gyllid gan y Pennaeth Dysgu gyda golwg ar sicrhau arbenigedd allanol i ymgymryd â'r dasg o baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18.**
- **Bod Mrs Helen Bebb, gyda chymorth Mrs Heledd Hearn, yn paratoi Cynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2018/19. Er mwyn i'r trefniant hwn weithio, bydd angen cytuno i Mrs Bebb gael oriau ychwanegol.**

**Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

## 4. ADRODDIAD AROLWG ESTYN (MEHEFIN 2018)

Cafwyd crynodeb gan Glerc y CYSAG o'r wybodaeth ar Adroddiad Arolwg Estyn ar AG yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y safonau a ddisgwylir o ysgolion.

Nodwyd bod safonau'n dda o ran AG yn y mwyafrif o ysgolion. Yn CA2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth AG. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn gwneud digon o gynnydd gyda phlant mwy galluog a'r angen i'w herio mwy. Yn CA3, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi ac yn cyflawni'n unol â'u gallu a'u hoedran.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:-

- Mae geiriau fel 'dylai' yn cael eu defnyddio dro ar ôl tro yn nherminoleg Estyn, sy'n datgan beth yn union sy'n ddisgwyliedig o'r ysgolion. Wrth gyfeirio at ffigyrau, mae Estyn yn defnyddio geiriau megis 'llawer' i olygu 70% neu ragor; 'ychydig' i olygu dan 20%. Mae'n bwysig bod athrawon yn gyfarwydd â therminoleg newydd Estyn.

- Mae angen mwy o waith pontio rhwng y sector cynradd ac uwchradd o ran AG.

- Mae arweinyddiaeth yn gyffredinol yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn gryfach yn y sector uwchradd na'r sector cynradd.
- Mae angen gwneud mwy na chodi ymwybyddiaeth yn unig mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson 2015). Nodwyd mai dim ond lleiafrif o ysgolion sydd wedi gwneud newidiadau i'r cwricwlwm hyd yma.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y defnydd cynyddol o TG mewn AG a'r cwricwlwm newydd ac effaith hyn ar athrawon. Mae disgwyl iddynt addasu i'r newidiadau heb gael cynnig unrhyw hyfforddiant TG i wella eu sgiliau.
- Mae rhai athrawon ofn rhag iddynt 'ddweud y peth anghywir' wrth ddysgu crefyddau eraill ac eithrio Cristnogaeth. Nododd yr athrawon hefyd y gall fod yn heriol pan mae teimladau agnostig cryf yn y cartref.
- Nodwyd nad oes gan y CYSAG drosolwg o gydlynwyr AG mewn ysgolion yn y sector cynradd er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth ac adnoddau. O'r herwydd, awgrymyd **a chytunwyd bod data-bas o gydlynwyr AG yn cael ei lunio fel bod gan yr ysgolion a'r CYSAG bwyntiau cyswllt yn yr ysgolion cynradd.**
- Dywed yr adroddiad bod 'y rhan fwyaf o Brifathrawon yn ymwybodol o'r CYSAG lleol, ond yn ansicr ynghylch ei rôl a'i bwrpas'.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch rôl a chyfrifoldeb y CYSAG, awgrymwyd y dylai **aelodau'r CYSAG gael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod nesaf o Benaethiaid ysgolion uwchradd Ynys Môn.**

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y CYSAG yn derbyn yr argymhellion uchod.**
- **Bod yr Ymgynghorydd Her yn cynnwys yr argymhelliad ym mhwynt bwled 7 uchod yng Nghynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2017/18.**
- **Bod Clerc y CYSAG yn diweddaru'r Cadeirydd ar y trefniadau ar gyfer cyfarfod Penaethiaid Ysgolion Ynys Môn.**
- **Estyn gwahoddiad i Mrs Heledd Hearn a Mrs Helen Bebb fynychu'r cyfarfod uchod.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 5. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

**Arolygiadau Ysgol Estyn - Gwanwyn 2018**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y CYSAG, wybodaeth o adroddiadau arolygiadau Estyn ar gyfer Ysgol Rhosybol, Ysgol Bryngwran ac Ysgol Gynradd Llanfairpwll.

Dywedodd y Cadeirydd bod y tair ysgol a arolygwyd wedi cael canlyniadau ardderchog gan Estyn ac y dylid eu llongyfarch ar eu gwaith.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y wybodaeth a gyflwynwyd.**

- **Bod Clerc y CYSAG:-**

    - **yn ysgrifennu at y tair ysgol yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant yn adroddiadau arolwg Estyn, ac**
    - **yn dweud wrth yr ysgolion uchod bod y CYSAG wedi trafod eu llwyddiannau yn y cyfarfod heddiw fel rhan o waith y CYSAG sy'n ymwneud â monitro safonau AG mewn ysgolion, ac**
    - **yn gwahodd Pennaeth Ysgol Rhosybol i gyfarfod nesaf y CYSAG i drafod llwyddiannau ac arferion da yn yr ysgol.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 6. CANLLAWIAU I YSGOLION AR GYFER HUNANARFARNU

Dywedodd Clerc y CYSAG bod y canllawiau wedi cael eu paratoi gan Miss Bethan James, a'u bod yn ddefnyddiol iawn o ran sut i hunanarfarnu addoli ar y cyd ac AG mewn ysgolion. Maent yn cynnwys syniadau i ysgolion ynghylch sut i gyflwyno tystiolaeth ac yn defnyddio geiriau sy'n gyfarwydd i Estyn. Cyfeiriodd y Clerc at y templed hunanarfarnu ar gyfer ysgolion, sy'n rhestru enghreifftiau o'r math o wybodaeth y dylid ei chyflwyno mewn diwyg electronig. Nodwyd bod Estyn yn awr wedi cynnwys pump o gwestiynau yn y templed o gymharu â'r tri blaenorol. Nodwyd ymhellach bod yr holl ysgolion a arolygwyd y llynedd wedi derbyn copi o'r canllawiau.

Mynegodd y CYSAG eu gwerthfawrogiad i Miss Bethan James am ei gwaith ardderchog.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd.**

**Gweithredu: Dim**

*Gadawodd Mrs Helen Bebb y cyfarfod am 3.00 pm*

## 7. GWEITHDY CYSAG MEWN PERTHYNAS Â'R CWRICWLWM NEWYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod o Weithdy CYSAG ar 18 Medi, 2018 yn Llandudno gyda Mr Christopher Thomas a Mrs Anest Frazer.

Rhoes Mr Christopher Thomas ddiweddariad ar y cyfarfod gan ddweud ei fod wedi ei galonogi gan y ffaith y bydd ysgolion yn cael y cyfle yn awr i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain o fewn y fframwaith. Nodwyd bod Mr Thomas o'r farn bydd gwneud i ffwrdd ag arholiadau yn y dyfodol yn gam ymlaen a chyfeiriodd at y canlyniadau cyrhaeddiad positif y bydd ysgolion yn eu defnyddio ar gyfer asesiadau, e.e. 'Gallaf wneud hyn', 'Rwyf wedi cael profiad o hyn', sy'n rhoi argraff well o lawer o'r hyn y mae plentyn yn ei wneud.

Nodwyd y bydd Dyfodol Llwyddiannus yn cael ei weithredu yn 2022, ac y bydd hyn yn cael effaith ar y disgyblion hynny sydd ym Mlwyddyn 2 ar hyn o bryd.

Nodwyd ymhellach nad yw absenoleb yr Ymgynghorydd Her Gwe i ddarparu cyngor glir a gwrthrychol am helpu'r CYSAG yn ei rôl.

Dywedodd Mrs Anest Frazer bod hwn yn amser pryderus i athrawon a disgyblion sydd wedi dewis AG fel pwnc TGAU oherwydd nad oes unrhyw adnoddau dwyieithog nac ychwaith unrhyw gydnabyddiaeth o statws cyfredol y cwricwlwm. Dywedodd ei bod wedi disgwyl i'r cwricwlwm newydd ddarparu mwy o atebion yn hytrach na'r ansicrwydd hwn.

Dygwyd at sylw'r CYSAG y ffaith y daethpwyd o hyd i anghysonderau yn ddiweddar mewn papur arholiad AG gan CBAC. Nodwyd bod gwahaniaethau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg 5 o gwestiynau a gafwyd yn yr arholiad. Dywedodd y CYSAG fod anghysonderau o'r fath mewn papurau arholiad yn annerbyniol a chytunwyd i hysbysu CBAC am eu pryderon.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod Mrs Heledd Hearn yn cadarnhau ar bapur i'r Cadeirydd, amgylchiadau'r anghysonderau y daethpwyd ar eu traws gyda'r papur arholiad uchod.**
- **Bod y Cadeirydd ar ran y CYSAG, yn drafftio llythyr swyddogol i CBAC yn gofyn am eglurhad ynghylch y camgymeriadau yn y papur arholiadau ac yn gofyn iddynt nodi pryderon y CYSAG ynghylch yr anghysonderau mewn papurau arholiad.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Dywedodd y Cadeirydd bod nifer dda o aelodau CYSAG Ynys Môn wedi mynychu'r cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ar gynhaliwyd yn Ynys Môn ar 6 Gorffennaf, 2018. Dywedodd bod y prif bwyntiau a godwyd yn cynnwys pryderon yng Ngogledd Cymru yn dilyn gwneud i ffwrdd â gwasanaeth Ymgynghorydd Her Gwe sydd hefyd effeithio CYSAGau Gwynedd, Fflint, Conwy a Sir Ddinbych. Nodwyd y mynegwyd pryder ynglŷn â'r dyfodol o ran y modd y dylai'r CYSAGau symud ymlaen a bod hwn yn fater sydd yn parhau i gael ei adolygu.

Dywedodd y Cadeirydd y cafwyd cyflwyniad ar yr adroddiad Estyn yn CA2 a CA3; trafodwyd cwricwlwm newydd Donaldson ynghyd â'r cyfarfod Gweithdy yn Llandudno.

Nodwyd bod Mrs Helen Bebb bellach yn aelod o'r Panel Asesu Cenedlaethol ar gyfer AG (NAPfRE). Fel aelod, disgwylir i Mrs Bebb fynychu cyfarfod cenedlaethol NAPfRE, fel cynrychiolydd CYSAG Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD nodi adborth y Cadeirydd a'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod.**

**Gweithredu: Dim**

**9. GOHEBIAETH**

Trafodwyd ymateb gan Kirsty Williams, AC yn eitem 2(5) y cofnodion.

**Aelodaeth Dyneiddwyr ar CYSAG Ynys Môn**

Darllenodd y Cadeirydd lythyr yr oedd wedi'i dderbyn ym mis Mehefin, 2018 oddi wrth Mr Richard Spate, Cadeirydd Grŵp Dyneiddwyr Bangor yn gofyn i'r CYSAG dderbyn cynrychiolwyr o grwpiau nad ydynt yn grefyddol ar y CYSAG.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am wybodaeth gan Mr Spate ynghylch nifer y Dyneiddwyr ar Ynys Môn ond nad ydyw wedi derbyn unrhyw ymateb hyd yn hyn.

**PENDERFYNWYD nad yw'r CYSAG yn gwneud penderfyniad ar hyn o bryd, ond yn disgwyl am ymateb gn Mr Spate i gais y Cadeirydd.**

**Gweithredu: Dim**

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nododd y CYSAG fod y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor wedi cael ei raglennu ar gyfer dydd Mawrth 19 Chwefror, 2019.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2017 – Awst 2018

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Delyth Molyneux / Arwyn Williams

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2017-8
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2017-9

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd CYSAG Môn 2017-18

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Derbyniwyd 3 adroddiad yn ystod 2017-18, sef x% o ysgolion Môn.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 | 11/53 | 2/x |
| **% o ysgolion Môn** | 11% | 15% | 22% | 22% | |

Cyflwynwyd a derbyniwyd, adroddiadau hunan arfarnu gan 3 ysgol yn ystod y flwyddyn: Ysgol Corn Hir ac Ysgol Pentraeth. Nid oedd camau gweithredu yn codi o'r adroddiadau.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2017-18.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

## 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ysgolion Môn yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 6 ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn. Arolygwyd yr ysgolion o dan Fframwaith Arolygu newydd ESTYN.

| Ysgol | Dyddiad | Gofal cymorth ac arweiniad (2.3) *A oes cyfeiriad at:* | Gofal cymorth ac arweiniad (2.3) *A oes cyfeiriad at:* | Profiadau dysgu (2.1) *A oes cyfeiriad at:* | Gweithio mewn partneriaeth (3.3) *A oes cyfeiriad at* |
|---|---|---|---|---|---|

| | | *datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | *addoli ar y cyd?* | *Addysg Grefyddol?* | *gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Penysarn | Hydref 2017 | ✓ | ✓[1] | ✗ | ✓ |
| Y Fali | Hydref 2017 | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Brynsiencyn | Rhagfyr 2017 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llanbedrgoch | Ionawr 2018 | ✗ | ✓[1] | ✗ | ✗ |
| Santes Gwenfaen | Ionawr 2018 | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Rhosybol | Mawrth 2018 | ✓ | ✓[1] | ✗ | ✗ |

1. Mae'r adroddiadau yn cyfeirio at 'cydaddoli' yn hytrach nag 'addoli ar y cyd'

Nid oedd cyfeiriadau at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN eleni, ond mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- Ysgolion Penysarn a Santes Gwenfaen yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda, tra bod Ysgol Rhosybol yn hyrwyddo'r agweddau hyn yn llwyddiannus iawn.
- tair o'r ysgolion yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio yn y sesiynau addoli ar y cyd (Penysarn, Llanbedrgoch, Rhosybol).
- Ysgolion Penysarn a Santes Gwenfaen wedi sefydlu partneriaethau priodol gyda chymunedau crefyddol lleol.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mr. Gareth Jones, swyddog addysg Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn trwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion:

- Rhian Jones (pennaeth Ysgol Pencarnisiog): Cyflwyniad ar y camau a gymerwyd gan yr ysgol er mwyn ymateb i argymhelliad ESTYN i *"Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol* ."
- Mefys Jones, Ymarferydd Arweiniol Rhanbarthol Gwe, a phennaeth adran addysg grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones: diweddariad ar ymdrechion athrawon y rhanbarth i gydweithio er mwyn datblygu a rhannu adnoddau dysgu ar gyfer y cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU newydd (CBAC).

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn ac i gynrychioli CYSAG Môn mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Yn cyfarfod CYSAG Môn, 18 Ebrill 2018, adroddodd y Swyddog Addysg nad oedd cefnogaeth GwE i'r CYSAG yn rhan o'r cytundeb gyda'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Llythyrwyd Prif Weithredwr GwE, y Pennaeth Dysgu a'r Aelod Portffolio Addysg yn amlinellu'r angen i sicrhau bod CYSAG yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod CYSAG Môn yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.
- Llunio cynllun gweithredu i CYSAG Môn ar gyfer 2018-19.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Môn wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi

mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.

- Derbyniodd yr aelodau diweddariad gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn cyfarfod Hydref 2017. Amlinellwyd cyfraniad gwaith Barbara Wintersgill, Prifysgol Caerwysg ar 'syniadau mawr Addysg Grefyddol' i drafodaethau'r ysgolion arloesi sy'n datblygu'r Cwricwlwm newydd. Rhannwyd prif negeseuon y papur ymgynghorol a baratowyd gan aelodau o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol a Chymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer y grŵp sy'n datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)*

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn ymwybodol o'r arweiniad atodol ac yn gweithredu ar argymhellion diweddaraf ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013)
  - Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
  - Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (ESTYN, Ebrill 2018)'. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o'r canllawiau:-
    *'Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un*

*a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Cytunwyd (6.10.15). Mae pro-fforma ar gael i'r aelodau ar gyfer cofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau. Mynychodd y Cynghorydd Gwilym O Jones sesiwn addoli ar y cyd yn Ysgol Pencarnisiog yn ystod y flwyddyn.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru');

## ADRAN 3: ATODIADAU

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2017-8

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch./Rev. Kate McClelland (Haf 2016) |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mrs Einir Morris |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Mrs Anest Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Mr Christopher Thomas |

**Cynrychiolwyr Athrawon (cyfetholwyd)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangaffo | Manon Morris Williams |
| Ysgol Cybi | Alison Jones |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Hearn |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones Edwards |

**Cynghorwyr**

Cynghorydd Glyn Haynes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Bryan Owen
Cynghorydd Dylan Rees (**Cadeirydd**)
Cynghorydd Alun Roberts

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Delyth Molyneux/Arwyn Williams | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Bethan James (tan Ebrill 2018) | Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2017-18

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2017 – 2018, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar ddau achlysur:

10 Hydref 2017
18 Ebrill 2018
Haf 2018 – dim cyfarfod

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 10 Hydref 2017**

- Materion yn codi: *gwahodd Ysgol David Hughes i rannu arferion da, rhannu canllawiau i aelodau newydd CYSAG, diolch i benaethiaid uwchradd am eu cefnogaeth i'r athrawon sy'n datblygu'r cwrs Astudiaethau Crefyddol (TGAU) newydd, lleihad yn y nifer sy'n astudio diwinyddiaeth yng Nghymru, deiseb genedlaethol addoli ar y cyd.*
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2016/2017
- Safonau addysg grefyddol: arolygiadau ysgol
- Cyflwyniad: Ymateb Ysgol Pencarnisiog i argymhelliad arolygiad ESTYN
- Arolwg thematig ESTYN
- Diweddariad gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 7 Gorffennaf 2017
- Cynllun Gweithredu CYSAG Môn ar gyfer 2017-18

**b) Cyfarfod 18 Ebrill 2018**

- Materion yn codi: *canlyniadau'r ddeiseb genedlaethol ar addoli ar y cyd, gohebiaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cwestiynau holiadur arolwg thematig ESTYN ar Addysg Grefyddol.*
- Adroddiad blynyddol CYSAG Ynys Môn 2016-17.
- Arolygiadau ESTYN: Ysgol Penysarn, Ysgol y Fali, Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Llanbedrgoch, Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn ac Ysgol Rhosybol.
- Hunan arfarniadau ysgolion: Ysgol Corn Hir, Ysgol Pentraeth
- Cefnogaeth arbenigol i CYSAG Môn
- Gwelliant i gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Canllawiau ar Reoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn Ôl o Addysg Grefyddol (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2018)
- Gohebiaeth:

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- ????????

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- ?????????

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Delyth Molyneux/Arwyn Williams, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Bethan James, Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE (tan Ebrill 2018)
Shirley Cooke, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

### Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

### ESTYN

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?

- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


## Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

## Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadlaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

| Addysg Grefyddol |
|---|
| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau: |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| Nodiadau: |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

## 3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**<u>Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ___________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.7 : Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2018-19

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2016-17/2017-18** | **Camau Gweithredu 2018-19**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YP (Ymgynghorydd Pwnc)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru<br>Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau<br>"Yr hyn sy'n bwysig" | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr ac aelodau CYSAG yn wybodus am ofynion Cwricwlwm i Gymru (YP)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. (ALL+YP+AC)<br>• Cynrychioli Ynys Môn mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YP + AC)<br>• Datblygu Maes Llafur Cytûn ar gyfer ysgolion Môn sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Maes Llafur Cytûn Ynys Môn<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Maes Llafur Cytûn Ynys Môn yn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru<br>• Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Ynys Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |
| *Cefnogaeth i GYSAG Môn?* | • | • | • | |
| *Profiadau cyfoethog – cyfraniad partneriaid lleol i ddatblygu dealltwriaeth o addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd?* | • | • | • | |

Tudalen 30

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

A. **Hydref 2018 / AUTUMN 2018**

**Ysgol Talwrn .**

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Nodwedd arbennig yw'r ffaith fod llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau mewn ffordd garedig ac annwyl ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae hyn yn cyfrannu at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn manteisio'n llawn ar y cyfle i fynegi pryder, a chynnig syniadau yn y 'blwch pryderon'.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad gan staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae medrau moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn ac mae'r ysgol yn ystyried eu barn o ddifri; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder ac yn meithrin synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau am amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Wellbeing and attitudes to learning: Good**

Nearly all pupils behave well in the classroom and around the school. They are very caring towards each other and treat adults and visitors with a high level of respect. A particularly good feature is the fact that many older pupils take care of younger pupils kindly and fondly, and take their responsibilities seriously. This contributes to the school's inclusive nature and caring ethos. Nearly all pupils feel safe at school and take full advantage of the opportunity to raise concerns and make suggestions through the 'worry box'.

***Care, support and guidance: Good***

The good quality of care, support and guidance from staff has a very positive effect on pupils' standards and wellbeing. Pupils' moral, social and cultural skills are developing very successfully. The strong focus of all members of staff on promoting high expectations and values encourages pupils to take responsibility for their actions maturely. Valuable opportunities are arranged for pupils to voice their opinions, and the school takes their views seriously. This has a positive effect on their confidence and nurtures a sense of pride and responsibility for others.

Respecting multiculturalism, promoting aspects of diversity, anti-racism and developing fairness and equal opportunities are prominent elements of the school's culture. An emphasis on promoting shared values has a positive influence on pupils' behaviour. The school's arrangements for safeguarding pupils meet requirements and are not a cause for concern.

**B. Hydref 2018 / AUTUMN 2018**

**Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Nodwedd arbennig o ddisgyblion Ysgol Syr Thomas Jones yw eu hagweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol a'u haddysg. Maent yn ddisgyblion diymhongar iawn, yn barchus a chwrtais ac yn ymroi i waith a bywyd yr ysgol yn dawel a gwylaidd. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n llawn trwy gydol y gwersi ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn llwyddiannus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion drwy wasanaethau, rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a Bagloriaeth Cymru. Cyfoethogir y ddarpariaeth gan gysylltiadau ag asiantaethau a gwasanaethau megis 'Mind', 'Gobaith Môn' a swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gynyddu eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw'n iach.

**Wellbeing and attitudes to learning: Good**

An excellent feature of pupils at Ysgol Syr Thomas Jones is their positive attitudes towards school life and their education. They are respectful and courteous pupils, and commit themselves quietly and modestly to the life and work of the school. Most concentrate fully throughout lessons and persevere with their tasks successfully.

***Care, support and guidance: Good***

The school offers appropriate provision for pupils' spiritual, moral, social and cultural development through assemblies, a personal and social education programme and the Welsh Baccalaureate.  Provision is enriched by links with agencies and services such as 'Mind', 'Gobaith Môn' and a police community support officer.  Provision offers useful opportunities for pupils to increase their fitness and understanding of how to live healthily.

This page is intentionally left blank

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gymuned Rhosybol Haf 2018**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y maes yn unol ar deillianau . Yn dilyn craffu ar lyfrau gwelwyd amryw o weithgareddau clodwiw Addysg Grefyddol ar draws y Cyfnod Sylfaen ac roedd cyflwyniad y gwaith yn gyson dda.<br>Ar ddechrau'r CS mae gallu y disgyblion i siarad am eu profiadau eu hunain a thrafod y byd o'u cwmpas yn datblygu ac erbyn diwedd y C.S mae mwyafrif yn gallu trafod eu profiadau eu hunain yn hyderus. Ychydig sydd yn gallu trafod eu teimladau yn dda a trafod barnau a safbwyntiau eraill. Yn dilyn gwaith graenus a chael trefnu Bedydd a Phriodas mae gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y CS wedi datblygu a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr dyfnach i symbolau crefyddol.<br><br>Yn waelod CA2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu yn syml i rai o'r credoau ac arferion crefyddol yr astudir. Mae tua hanner yn adnabod yr hyn sydd yn debyg ac yn wahanol o fewn y crefyddau. Mae rhan fwyaf yn gallu disgrifio eu teimladau a'u barnau a cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau eraill. Mae y mwyafrif yn adnabod symbolau ac yn gallu defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.Mae bron bob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiwn am eu profiadau , y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd ac gyda anogaeth gallent gynnig barn eu hunain.<br><br>Ym mrig CA2 mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau ac arferion crefyddol a sut mae'n effeithio ar fywyd credinwyr . Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywyd credinwyr ac yn nodi yr hyn sydd yn debyg ac yn wahanol.Mae mwyafrif yn gallu esbonio sut mae eu teimladau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eraill ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas. Mae tua hanner o'r disgyblion yn gallu trafod cwestiynau sylfaenol crefyddol yn synhwyrol.<br>Gwelwyd enrheifftiau aeddfed iawn o waith ar y deg gorchymyn yn dilyn prosiect ar ddylunio y Byd Perffaith yn CA2. |
| |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Da** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| Mae llais y disgybl yn ran allweddol o fywyd a gwaith yr ysgol ac mae bron bob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae cyfle cyson i ddisgyblion ymateb a thrafod materion sydd yn codi yn y newyddion ac o ganlyniad yn eu datblygu yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus. Mae'r holl ddisgyblion wedi bod yn rhan o gydlynu prosiect cymunedol Byd Eang i gasglu nwyddau i ffoaduriaid Syria a thrigolion Twr Grenfell yn ogystal a chefnodi gweithgareddau ac elusenau lleol yn gyson. Mae'r gwaith cymunedol yma wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o wahanol grefyddau ar draws y Byd. |

| |
|---|
| Mae cynllun AbaCH yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd wythnonsol i drafod a chodi unrhyw bryder neu gwestiwn mawr pan fod yn codi. |
| |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Da** |

| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
|---|
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau.**<br>**Y CYFNOD SYLFAEN**<br>Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y Cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o flwyddyn i flwyddyn.<br>Mae ystod eang o brofiadau ymarferol yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd<br>Mae adnoddau storiol, llyfrau gwybodaeth, ymwelwyr , adnoddau TGCH yn cyfoethogi 'r ddarpariaeth ynn y maes.<br><br>**CYFNOD ALLWEDDOL 2**<br>Mae'r gweithgareddau yn ddiddorol i'r disgyblion gyda digon o her ynddynt.<br>Mae Addysg Grefyddol yn cael ei gyflwyno yn drawsgwricwlaidd ac fel sylfaen i feysydd eraill.<br>Manteisir ar y cyfle i gydweithio gyda ymwelwyr o'r pentref sydd yn mynd ar bererindodau a gwneud gwaith elusenol i gefnogi'r addysgu.<br>Defnyddir TGCH fel cyfrwng i ymchwilio ac i ffilmio gwaith i gyfoethogi'r addysgu.<br><br>Camau Nesaf – Datblygu cyfleoedd yn unol ar Cwricwlwm Newydd a datblygu ardal penodol yn y dosbarth e.e ' Den darganfod ' i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion Bl2 yr ysgol gael cywain gwybodaeth yn annibynnol ac i ddatblygu cyfleoedd i CA2 gael trafod cwestiynau mawr. |
| |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Da** |

| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** |
|---|
| Mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain yn dda<br><br>Mae'r cyfleoedd sydd yn codi oddi fewn i addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol yn dda ac mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol |

| |
|---|
| Darperir Addoli ar y cyd yn ddyddiol yn yr ysgol. Tri sesiwn yn y neuadd a dau sesiwn yn y dosbarth.<br>Bydd cyfleoedd i ddatblygu agweddau moesol, ysbrydol a chred yn y sesiynau yn ogystal a hyrwyddo gwerthoedd ac ethos.<br>Yn ystod yr addoliad bydd y plant yn cael cyfle i wrando ar stori , cyflwyniad gan aelod o staff neu ymwelydd, gweddio a chanu.<br>Mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad at ddatblygiad ysbrydol, moesol, chymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfle i ddatblygu agweddau AbaCH, Cwricwlwm Cymraeg a Dinasyddiaeth Fyd Eang fel rhan o'r addoliad.<br><br>Bydd gwasanaeth 'Agor y Llyfr' yn cael ei gynnal yn wythnosol yn yr ysgol yn ogystal a gwasanaethau arbennig Diolchgarwch a'r Nadolig yn y Capel lleol.<br>Mae aelod o'r Eglwys yn ymweld ar ysgol yn wythnosol i gynnal gwasanaeth. |
| |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **/** | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Da** | | | | |

| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| Mae trosolwg ysgol gyfan yn sicrhau bod holl agweddau Addysg Grefyddol yn cael ei gyffwrdd yn drawsgwricwlaidd ar draws y ddau gyfnod allweddol yn effeithiol<br>Mae defnydd effeithiol o'r amserlen yn sicrhau bod Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad at ddatblygiad ysbrydol, moesol,chymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfle i ddatblygu Abach, Cwricwlwm Cymraeg a Dinasyddiaeth Fyd Eang fel rhan o'r addoliad a gwneir defnydd effeithiol iawn o ddigwyddiadau o fewn y gymuned a thu hwnt i ysgogi disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus.<br>Gwneir defnydd effeithiol o fudiadau a sefydliadau o'r gymuned i ysgogi'r dysgu e.e Ymweld a chartref yr henoed, gwasanaethau cymunedol, cydweithio hefo elusenau fel SHARE a Macmillan |
| |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Da** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr a'u plethu i fewn i'r Cwricwlwm Newydd i Gymru<br><br>Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gywain gwybodaeth yn annibynnol yn y CS<br><br>Sicrhau cyfleoedd i drafod cwestiynau mawr crefyddol CA2 | Datblygu Cynlluniau<br><br>Datblygu Tasgau Addysg Grefyddol yn yr Ardal 'Den darganfod' yn CS a CA2 | | |

| | | |
|---|---|---|
| Efelychu arferion da ymhob gwasanaeth | Gwahodd ymwelwyr i gefnogi agweddau o'r gwasanaethau | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae gofal yn yr ysgol yn Rhagorol gyda'r holl ddisgyblion yn teimlo yn hapus a diogel, yn gwybod at bwy i droi ac yn cael cyfleoedd cyfartal. Mae datblygiad ysbrydol,moesol,cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo yn llwyddiannus iawn.

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Gwennan Roberts** |
| **Llofnod y pennaeth** | G. Roberts |
| **Dyddiad:** | 7/2/18 |

# Hunan arfarnu pwnc- Addysg Grefyddol - CYSAG

(Pwrpas y rhan hon yw nodi'r canfyddiadau yn dilyn craffu ar lyfrau neu dystiolaeth o waith disgyblion o fewn y pwnc. Dylid ystyried swmp, safon, amrywiaeth, dilyniant, sgiliau pynciol, sgiliau llythrennedd a rhifedd, agweddau trawsgwricwlaidd.)

Cwestiwn 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

| | Canfyddiadau | Camau i'w cymryd |
|---|---|---|
| CS | Mae'r disgyblion yn hyderus iawn wrth drafod eu teimladau ac yn medru rhesymu sut mae gweithredoedd eraill yn gallu effeithio ar deimladau unigolion.<br>Gall y rhan fwyaf ddeall beth yw prif negeseuon o fewn storiau crefyddol gyda ychydig yn medru esbonio effaith y negeseuon/gwers ar unigolion.<br>Mae tua hanner y disgyblion yn medru adnabod rhai symbolau crefyddol amlwg.<br>Erbyn diwedd y CS mae llawer yn medru adnabod crefyddau eraill yn llwyddiannus.<br>Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen wrth chwarae rol,  maent yn medru efelychu swyddi neu gyflawniad pobl crefyddol yn hyderus.<br>Wrth ymdrin a gwyl crefyddol mae'r bron bob un yn medru uniaethu ac ymuno yn y dathliadau. | Creu arddangosfeydd crefyddol eu naws ar furiau'r adran.<br>Archebu mwy o lyfrau crefyddol addas |
| CA 2 | Mae y rhan fwyaf o'r plant yn medru galw i gof storiau crefyddol a'r mwyafrif yn medru mynegi barn am negeseuon y storiau drwy weithgareddau amrywiol.<br>Gall y mwyafrif o ddisgyblion ddisgrifio a dechrau esbonio'r credoau ac arferion crefyddol eraill.<br>Wrth ddefnyddio termau crefyddol mae llawer ohonynt yn llwyddiannus wrth sgwrsio o fewn y cyd destun. Maent yn medru cymharu nodweddion crefyddau.<br>Mae plant ar draws y cyfnod yn hyderus wrth archwilio ffynhonellau crefyddol ac mae llawer yn medru ystyried y materion sy'n codi, dim ond ychydig o blant sydd yn gallu ategu dadleuon a barnau.<br>Erbyn diwedd cyfnod allweddol mae y rhan fwyaf yn medru nodi'r nodweddion sy'n debyg neu yn wahanol o fewn | Gwahodd ymwelwyr, yn cynnwys clerigwyr lleol ac arweinwyr crefyddol eraill i wersi.<br>Esbonio a chyfiawnhau syniadau yn fwy trylwyr  yn ystod cyfnod amser cylch a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt fynegi barn ar sut mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn effeithio arnynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | crefyddau.<br>Gydag annogaeth mae'r disgyblion yn defnyddio iaith grefyddol yn addas.<br>Mae bron pob un yn medru gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain a'r byd sydd o'u cwmpas ac yn medru trafod cwestiynau sydd yn codi o'u profiadau. Gall ychydig o ddisgyblion ar frig y cyfnod allweddol ofyn cwestiynau dwys a chymleth gan ymateb iddynt yn aeddfed.<br>Mae safonau a welwyd wrth edrych ar waith plant yn dangos fod y safon yn dda ar draws yr ysgol. | |

**Cwestiwn 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

| | Canfyddiadau | Camau i'w cymryd |
|---|---|---|
| CS | Mae'r atharwon yn defnyddio Fframwaith y Cyfnod Sylfaen i gynllunio gweithgareddau o dan y penawdau Pobl credoau a chwestiynau gan edrych ar y sgiliau sydd yn amlygu eu hunain o dan y penawdau Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad personol a Chymdeithasol lles ac Amrywiaeth ddiwylliannol.<br>Mae'r atharwon yn cynllunio yn ofalus ac mae datblygiad amlwg o un dosbarth i'r llall. Mae cynlluniau yn rhoi ystyriaeth i weithgaeddau trawsgwricwlaidd sydd yn gwneud defnydd o wahanol ardaloedd o fewn y cyfnod sylfaen. Bydd y plant yn cael y cyfle i ymestyn eu datblygiad moesol ac ysbrydol drwy ymateb i syniadau a chwestiynu a thrafod mewn sesiynau amser cylch.<br>Gwneir defnydd da iawn o storiau, llyfrau, offer TGCh. | Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau amrywiol a diddorol i'r plant.<br>Sicrhau fod cynlluniau gwaith yn herio dealltwriaeth a rhoi cyfleoedd i esbonio |
| CA 2 | Mae gwybodaeth gefndirol yr athrawon yn dda.<br>Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb i ofynion maes llafur a'r cwricwlwm addysg grefyddol.<br>Mae addysg grefyddol wedi ei fapio mewn cylch dwy flynedd i bob dosbarth ac yn dangos dilyniant a datblygiad o un dosbarth i'r llall gan roi ystyriaeth i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r fframwaith sgiliau.<br>Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion weithio yn drawsgwricwlaidd | Sicrhau fod addysg grefyddol yn cael ei addysgu yn unol ag amserlen dosbarth.<br>Cyfleoedd i ddatblygu'r ochr meddwl am effaith a chanlyniadau o fewn cynlluniau gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| | gydag addysg grefyddol yn cael eu blethu i mewn i brofiadau dysgu cyfoethog.<br>Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn dda. | |

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**
**Ydy'r addoli yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? Ydy.**

Ystyrir addoli ar y cyd yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol, yn blentyn ganolog, yn cydnabod natur gwahaniaethol plant ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned yn yr ysgol.

Y mae ein addoli ar y cyd cynhwysol:
- yn blentyn-ganolog
- yn cydnabod natur wahaniaethol y disgybl
- yn rhoi'r cyfle i ddisgybl i fod yn weithredol (naill ai'n uniongyrchol – trwy ganu emyn, trwy gydweddio, neu drwy gynnig sylw, neu'n anuniongyrchol, trwy fyfyrio ar eu profiadau)
- yn hyrwyddo'r ymdeimlad o gymuned yn yr ysgol

Y mae ein addoli ar y cyd ysbrydol:
- yn rhoi cyfle i ymlonyddu ac i fyfyrio mewn awyrgylch o dawelwch a thangnefedd
- yn digwydd mewn awyrgylch arbennig sydd, o bosib, yn cynnwys lleoliad deniadol, cerddoriaeth gefndir neu symbol gweladwy i ganolbwyntio'r meddwl
- yn annog disgyblion i ymddwyn yn briodol wrth gyrraedd a gadael yr addoliad ac i deimlo'n gartrefol a chyfforddus
- yn annog disgyblion i fod yn ymwybodol o'r dimensiwn ysbrydol trwy gyfrwng geiriau, cerddoriaeth a delweddau
- yn darparu cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau ysbrydol megis canu, dawnsio, drama, rhannu bwyd a diod, gweddio, tawelwch a myfyrdod
- yn darparu cyfle i ddisgyblion fyfyrio'n unigol
- yn gyfnod wedi ei wahanu oddi wrth gyhoeddiadau'r dydd

Y mae ein addoli ar y cyd addysgol:
- wedi ei gynllunio, ei baratoi, ei gyflwyno a'i arfarnu er mwyn sicrhau profiadau safonol a pherthnasol
- yn berthnasol i waith cwricwlaidd
- yn rhoi cyfle i fyfyrio ar ei phwrpas addysgol ei hun gan ddathlu amrywiaeth o gyraeddiadau addysgol (nid yn unig academaidd neu o'r maes chwarae)
- yn gyfrwng i hyrwyddo amcanion addysgol yr ysgol

**Nodweddion arfer dda mewn addoli ar y cyd o'r fframwaith Arolygu**

- Rhoi amser digonol i greu amgylchedd a naws o barchusrwydd tuag at gyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.

- Rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyfranogi ac ymateb, naill ai drwy gymryd rhan weithredol mewn cyflwyno'r addoliad neu drwy wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir

- Sicrhau fod addoli ar y cyd yn datblygu ysbryd cymdeithasol, yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd cyffredin ac yn atgyfnerthu ymagweddau cadarnhaol

- Cynllunio addoli ar y cyd yn ofalus, fel arfer dros nifer o wythnosau neu dros dymor, er mwyn datblygu themâu a syniadau. Dangos cynlluniau amrywiol a chyd bwysedd addoli fel cofnod o'r gwaith a wneir.

- Gwneud defnydd effeithiol o symbyliadau priodol, yn cynnwys drama, cerddoriaeth, llenyddiaeth, arteffactau a darluniau, i ddal a chadw diddordeb a chyfranogiad y disgyblion

- Sicrhau cyfleoedd i weddio ac i fyfyrio'n dawel

**Hunan Arfarnu - Addysg Grefyddol**

## Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol?

**1.1 Safonau a chynnydd disgyblion (mewn addysg grefyddol)**
Mae safonau Addysg Grefyddol yn **dda** yn yr ysgol gyda data'r ysgol yn tystio fod **bron pob un** dysgwr yn cyrraedd Lefel 4 neu well yn y pwnc erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol – diwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn profi'r cynnydd **da** mae'r dysgwyr yn ei wneud yn y pwnc o flwyddyn i flwyddyn yn yr ysgol gyda **bron pob un** yn cyrraedd Deilliant 5 mewn Dat.Pers a Chymdeithasol ar ddiwedd Bl.2 wrth gael cyfle i ddatblygu sgiliau o fewn y maes 'Pobl, credoau a chwestiynau' ac yna cynnydd **cyson dda** gan lwyddo i gyflawni Lefel 4+ mewn Addysg Grefyddol ar ddiwedd Bl.6. Fodd bynnag, mae angen codi'r niferoedd sydd yn cyflawni Lefel 5+ erbyn diwedd CA2.

**1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol**
Yn gyffredinol, dengys y data asesiadau nad oes gwahaniaeth arwyddocâol rhwng perfformiad Bechgyn a Merched mewn Addysg Grefyddol. Mae dysgwyr ADY a'r rhai hynny sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim (PYD) yn gwneud cynnydd **da** o flwyddyn i flwyddyn yn y pwnc ac yn cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad eu cyfoedion. Fodd bynnag, **ychydig iawn** o'r dysgwyr MATh sydd yn llwyddo i berfformio ar y lefelau uwch yn y pwnc erbyn diwedd CA2 (gwelir mai diffyg cyfle i berfformio ar y lefelau uwch yw hyn ac mae wedi ei flaenoriaethu o fewn y Cynllun Gwella Ysgol yn 2017/18).

**1.3 Safonau a chynnydd o ran y medrau trawsgwricwlaidd mewn addysg grefyddol**
Tystiai gwaith a Llyfrau Thema'r dysgwyr eu bod yn gallu defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn **llwyddiannus** ac yn **fedrus** wrth wneud tasgau sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol e.e. dysgwyr Bl.2 yn mynd ati i ysgrifennu'n estynedig wrth gyflwyno gwybodaeth ar Gwyl Navratri ar 'Google Docs' wrth iddynt astudio yr India; dysgwyr Meithrin a Derbyn yn defnyddio ac yn datblygu eu gwybodaeth o setiau o 2/parau wrth wneud tasgau rhif yn gysylltiedig â Stori Arch Noa; dysgwyr ar frig CA2 yn gwneud ymchwil i wahanol addoldai a rhyfeddodau sy'n gysylltiedig â rhai o grefyddau'r Byd gan ddefnyddio'r we ayb. Aiff y dysgwyr ati i ddatblygu eu creadigrwydd drwy ddefnyddio eu sgiliau creadigol yn **effeithiol** wrth wneud tasgau sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol megis creu patrymau mehndi ar eu dwylo, creu murlun o stori Feiblaidd ac hefyd y celfyddydau mynegiannol wrth berfformio e.e. perfformio stori Rama a Sita yn CA2. Drwy hyn oll, mae pob un athro o'r farn fod **bron pob un** dysgwyr yn gallu cymhwyso eu medrau siarad a gwrando yn **dda** yn y pwnc.

**Materion i gael sylw**
- *Codi'r niferoedd sydd yn cyflawni y lefelau uwch yn y pwnc ar ddiwedd CA2, gan sicrhau fod pob un plentyn MATh yn cyflawni hynny – athrawon CA2 i gofio fod ymatebion a chyfraniad dysgwyr o fewn trafodaethau dosbarth angen ei gadw mewn côf wrth asesu Addysg Grefyddol.*

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn:**

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – lles ac agweddau at ddysgu**
**2.1 Lles**
Mae'r athrawon o'r farn fod y **rhan fwyaf** o'r dysgwyr yn gadael yr ysgol yn dinasyddion moesegol a gwybodus gan lwyddo i adnabod sylwadau eithafol a rhagfarnllyd ac na ddylid gwneud sylwadau o'u bath e.e. drwy astudio gwahanol grefyddau'r byd a deall fod bywydau, dathliadau a chredoau arbennig ac unigryw gan bobl o wahanol ffydd, gan ymestyn i astudio pynciau mwy heriol yn y pwnc ar frig yr ysgol megis astudio Iddewiaeth a phwer a dylanwad Hitler, Cyflafan yn Munich 1972, a chredoau arwyr megis Matrin Luther King.
**2.2 Agweddau at ddysgu**
Mae'r **rhan fwyaf** o'r dysgwyr yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd a rhai anghyfarwydd sydd yn cael eu cyflwyno a'u trafod mewn Addysg Grefyddol e.e wrth ddysgu am lyfrau sanctaidd, addoldai, credoau a thraddodiadau crefyddau eraill megis Islam, gwahanol wyliau a diwylliannau o amgylch y byd.

**Materion i gael sylw**
- *Cynnal y nifer dda o ddysgwyr sydd yn llwyddo i adnabod sylwadau eithafol a rhagfanllyd yn y deunuddiau darllen/sylwadau fideos/sain ac sy'n datblygu yn ddinasyddion moesegol, gwybodus a chadarn.*

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn:**

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**3.1 Ansawdd yr addysgu**
Dengys llyfrau gwaith a thystiolaeth o weithgareddau dysgwyr y Cyfnod Sylfaen fod y dysgwyr yn cael cyfleodd **cadarn** i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol Cristnogol yn ogystal â chrefyddau eraill. Cânt gyfle i ddatblygu hyn wrth i'r athrawon ddarparu gweithgareddau a thasgau trawsgwricwlaidd **symbylus** a **chlodwiw**. Enghreifftiau **da** yw'r gwaith o fewn y themâu 'Y Byd Mawr Crwn', 'Goleuni' ac 'Hapusrwydd'. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o fathau tebyg o weithgareddau yn CA2 yn ystod 2016/17 yn arbennig tasgau fyddai yn rhoi cyfleoedd i rai dysgwyr berfformio ar y lefelau uwch yn y pwnc ac mae'r athrawon wedi dechrau mynd ati eleni (2017) i sicrhau cyfleoedd fuddiol i sicrhau hyn drwy lynnu at gynlluniau gwaith thema a 'Chynllun Tymor Hir Addysg Grefyddol' yr ysgol. Nid yw hyn yn adlewychiad teg o safon y ddarpariaeth dros dreigl gan ac mae llyfrau gwaith yn dangos gwelliant yn barod.

Tystiai y 'Cynllun Tymor Hir Addysg Grefyddol' fod yr athrawon o fewn **pob un** dosbarth bellach wedi mapio cyfleoedd **gwerthfawr**, diddorol a **chynhwysfawr** i ddatblygu sgiliau Addysg Grefyddol ar draws yr holl themâu yn drawsgwricwlaidd, law yn llaw ag agweddau o ABaCh ac ADCDF megis o fewn themâu 'O! Am Fyd Rhyfeddol', 'Pencampwyr' a 'Troi a Llifo' yn CA2.

Gwelir o fewn y llyfrau themau fod adborth yr athrawon ar waith y plant yn y pwnc yn rhoi cyfle **fuddiol** i'r dysgwyr ymateb yn bellach i'r dasg drwy'r defnydd o'r Cwestiwn Gwyrdd e.e. "*Sut fyddet ti yn mwynhau dathlu Diwali*?". Drwy gynllunio **trylwyr**, sicrheir cyfleoedd **gwerthfawr** i'r dysgwyr ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm; yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, TGCh; wrth addysgu Addysg Grefyddol / agweddau o faes 'Pobl, credoau a chwestiynau'. Aiff athrawon CA2 i asesu o fewn y pwnc gan ddefnyddio'r offeryn Olrhain Cynnydd 'Incerts' yn **briodol**.

**3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm**
Fe gyflwynir Addysg Grefyddol yn unol â gofynion Maes Llafur Cytun yr Awdurdod, a threfnir ein gweithgareddau yn **drylwyr** drwy ystod **dda** o brofiadau gwahanol. Mae Addysg Grefyddol yn agwedd o'r Cwricwlwm sy'n cael ei addysgu yn drawsgwricwlaidd ac ymwneud yn benodol â gwerthoedd personol a moesol a ffordd o fyw sy'n ystyrlon a phwrpasol. Fe'i gyflwynir trwy gyfrwng storïau, neu yn ystod gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn y dosbarth. Mae ein cwricwlwm wedi selio ar y traddodiad Cristnogol, ond fe addysgir y plant am grefyddau a chredoau eraill hefyd yn **llwyddiannus** gan adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru a'r ardal leol yn **effeithiol.** Atgyfnerthir a chyfoethogir gwaith a gweithgareddau'r dosbarth drwy ymweliadau addysgol megis ymweld ag addoldai lleol o leiaf unwaith ym mhob Cyfnod Allweddol.

**3.3 Darpariaeth ar gyfer y medrau**
Drwy gynllunio **trylwyr**, Sicrheir cyfleoedd **gwerthfawr** i'r dysgwyr ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm; yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, TGCh; wrth addysgu Addysg Grefyddol / agweddau o maes dysgu Datblygiad Personol, Lles ac Amrwyiaeth Ddiwylliannol y Cyfnod Sylfaen e.e. dysgwyr Bl.2 yn mynd ati i ysgrifennu'n estynedig wrth gyflwyno gwybodaeth ar Gwyl Navratri ar 'Google Docs' wrth iddynt astudio yr India; dysgwyr Meithrin a Derbyn yn defnyddio ac yn datblygu eu gwybodaeth o setiau o 2/parau wrth wneud tasgau rhif yn gysylltiedig â Stori Arch Noa; dysgwyr ar frig CA2 yn gwneud ymchwil gan ddefnyddio'r we i wahanol addoldai a rhyfeddodau sy'n gysylltiedig â rhai o grefyddau'r Byd ayb

**Materion i gael sylw**

- *Mae angen i athrawon CA2 sicrhau cyfleoedd cyson dda i'r disgyblion wneud tasgau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar Addysg Grefyddol gan lynnu at gynlluniau'r ysgol (peidio hepgor y pwnc o rai themâu).*
- *Sicrhau cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr allu cyrraedd L5+ erbyn diwedd CA2 ac i ymdrin â chwestiynau mawr bywyd.*

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn:**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.

**4.2 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol)**
Drwy wersi Addysg Grefyddol o fewn themâu symbylus, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd **buddiol** i'r dysgwyr fod yn ddinasyddion gweithredol drwy ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant a lle crefydd a moeseg yn y gymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft drwy ddysgu am waith gwahanol elusennau; megis Cymorth Cristnogol; mae'r dysgwyr yn deall pwysigrwydd helpu eraill gan benderfynu ar godi arian tuag at elusennau penodol. Cânt gyfleoedd cyson **werthfawr** i gynnal gwasanaethau i'r cyhoedd; yn yr ysgol ac yn yr eglwys a'r capel lleol; gan weld budd o weithgarwch o'u bath ar gyfer datblygu eu hymglymiad cymunedol. Serch y ceir cynlluniau gwaith trylwyr mewn lle, cânt hefyd gyfle **gwerthfawr** i ddysgwyr drafod yr hyn yr hoffent ei astudio o fewn thema ar ddechrau'r gwaith gan gynnwys agweddau o Addysg Grefyddol e.e. wrth drafod teitl y thema/topig ar ddechrau'r tymor. Drwy gyfrwng gwahanol themâu ar draws yr ysgol megis 'Hapusrwydd', 'Carnifal' 'Pencampwyr', 'Arwyr a Dihirod' ac 'Y Blits' ayb rhoddir cyfle **gwych** i'r dysgwyr ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau, eithafiaeth crefyddol ac hawliau dynol. Er enghraifft drwy astudio a thrafod araith enwog Martin Luther King a mynd ati i ysgrifennu araith gyfoes '*I Have a Dream'* eu hunain sy'n berthnasol i heddiw, drwy ddysgu am eithafiaeth Hitler a thrugaredd Oscar Schindler yn ystod y Holocost, dysgu am ddylanwad gweithredoedd Rosa Parks a Nelson Mandela, cydraddoldeb o fewn chwaraeon a Gemau Olympaidd, dysgu am amrywiaeth o ddiwylliannau a chrefyddau ayb.

*Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol Addoli ar y Cyd yn* ***dda*** *wrth addoli yn ddyddiol - boed yn wasanaeth ysgol gyfan, gwasanaeth dosbarth neu cyfnod o weddïo. Rydym yn ymfalchïo fod y cyfnod o gyd-addoliad yn gyfnod ysbydoledig nodedig. Rhydd y cynllun Addoli ar y Cyd gyfleoedd* ***arbennig o dda*** *i'r dysgwyr fyfyrio ar; ag archwilio; materion crefyddol, moesol ac ysbrydol yn ogystal ag agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'r ddogfen yn un weithredol ac fe addasir y cyflwyniadau a'r llenyddiaeth o fewn y gwasanaethau i sicrhau symbyliad cyfoes ac effelithiol megis clipiau fideo, cerddoriaeth, storïau newydd gan ennyn diddordeb a chyfraniad y dysgwyr yn d**da**.*

Drwy hyn oll, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd **da** i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu gwerthoedd sicr, i sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol ac i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.

**4.3 Diogelu**
Mae **pob un** aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant perthasnol i gadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio gan sicrhau eu bod yn wyliadwrus ac yn effro i sylwadau eithafol ac amhriodol yn ystod pob gwers gan gynnwys Addysg Grefyddol.

**Materion i gael sylw**
- *Parhau i addasu cynnwys y Cynllun Gwasanaethau / Addoli ar y Cyd drwy gynnwys llenyddiaeth, clipiau fideo, cyflwyniadau ayb cyfoes.*

| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** |
|---|---|---|---|

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn:**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?

**5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr**
Mae gan y Pennaeth/Cydlynnydd Addysg Grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth **dda** o'r maes er mwyn arwain y pwnc yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr dynodedig yn ymweld â'r ysgol yn **gyson dda** ac yn cynnal gwasanaethau ysgol gyfan. Caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol yn llawlyfr yr ysgol ac wrth i'w plant ddechrau yr ysgol am y tro cyntaf. Nid oes hanes diweddar o ddysgwyr yn cael eu tynnu o wersi Addysg Grefyddol nag o gyfnodau Addoli ar y Cyd.

**5.2 Prosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant**
Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd a chydbwysedd y ddarpariaeth yn cael ei harfarnu yn flynyddol drwy brosesau craffu ar waith y dysgwyr, arsylwi gwersi a theithiau dysgu gyda'r Llywodraethwyr. Caiff darpariaeth a safon Addoli ar y Cyd ei arfarnu'n **drylwyr** unwaith bob tair blynedd drwy graffu ar Gynllun Gwasanaethau / Addoli ar y Cyd, holiaduron dysgwyr, yn ogystal â'r Pennaeth a'r Llywodraethwraig Ddynodedig yn arsylwi sesiynau Addoli ar y Cyd. Gwelwyd diffyg yn y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn CA2 wrth graffu ar waith dysgwyr 2016/2017 ac mae'r angen i roi sylw teilwng a chytbwys i'r pwnc wedi ei flaenoriaethu yng Nghynllun Gwella'r Ysgol (2017-2018) gyda chamau gweithredu **trylwyr** a **chlir** er mwyn sicrhau gwelliant cryf yn y ddarpariaeth yn unol â'r arfer dros dreigl yn yr ysgol.

**5.3 Dysgu proffesiynol**
Mae un o athrawon yr ysgol yn 'Arweinydd Cwricwlwm i Gymru' y dalgylch sydd yn arwain cydweithio rhwng

athrawon o fewn y dalgylch ar gynllunio prosiect pontio Cynradd-Uwchradd newydd yn seiliedig ar egwyddorion 'Cwricwlwm i Gymru' a fydd yn ffocysu ar y dyniaethau gan gynnwys Addysg Grefyddol. Dros y blynyddoedd nesaf bydd yn cydweithio â'r Pennaeth a'r tîm addysgu ar roi sylw i 'bedwar diben' y Cwricwlwm gan ddechrau cynllunio cyfleoedd cyfoethog i sicrhau y bydd y disgyblion yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

**5.4 Y defnydd ar adnoddau**

Mae gan yr ysgol adnoddau **fuddiol** i gynorthwyo i addysgu Addysg Grefyddol ac yn gwneud defnydd e**ffeithiol** o adnoddau digidol i gyfoethogi'r dysgu ac addysgu.

**Materion i gael sylw**

- *Gwahodd CYSAG i'r ysgol i gaffael eu barn ar y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol / Addoli ar y Cyd.*
- *Sicrhau fod y flaenoriaeth ar sicrhau rhoi sylw cytbwys i'r Pynciau Allgraidd ac Addysg Grefyddol yn CA2 (o fewn y Cynllun Gwella Ysgol) yn gwneud cynnydd cryf neu well yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18.*
- *Dechrau paratoi at y Cwricwlwm diwygiedig drwy barhau i gynllunio a darparu cyfleoedd cyfoethog i sicrhau y bydd y disgyblion yn "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd" gan fanteisio ar unrhyw hyfforddiant a fydd yn cael ei gynnig yn y maes yn y cyfamser*

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn:**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: *Iwan W Taylor* (Pennaeth) Dyddiad: 17.11.17

**Enw'r Ysgol: Y Fali**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.<br>**Y CYFNOD SYLFAEN**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau dod yn hyderus wrth drafod amrywiol faterion ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn dechrau galw i gof storïau a ffeithiau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau mewn parau, grwpiau bach a dosbarth cyfan gan ofyn cwestiynau synhwyrol.<br>Gall y rhan fwyaf siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.<br>Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio geirfa grefyddol syml gyda hyder cynyddol.<br><br>**CYFNOD ALLWEDDOL 2**<br>Mae'r rhan fwyaf o blant 3 / 4 yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau. Erbyn bl 5 / 6 mae tua hanner o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai arferion crefyddol a chredodau. Maent yn dechrau sylweddoli fod grefydd a chredodau yn effeithio ar fywydau credinwyr.<br>Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn bl 3 / 4 yn gallu disgrifio a trafod eu teimladau. Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu safbwyntiau eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddant yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.<br>Erbyn bl 5 a 6, mae llawer o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau. Mae llawer ohonynt yn gallu trafod sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau eraill. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geiriau addas.<br>Drwy addysgu yn drawsgwricwlaidd mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ddefnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol e.e. cynllunio hysbyseb ar gyfer swydd ficer newydd, ysgrifennu barddoniaeth a chynllunio cardiau dathliad Eid.<br>Yng Nghyfnod Allweddol 2 defnyddir cynlluniau ac adnoddau Cwestiynau Mawr mewn Addysg Grefyddol yn rhannol rhwng y dosbarthiadau bellach. |
| Nodiadau:<br>**CYFNOD SYLFAEN:** Mwy o gyfle am drafodaethau. Datblygu cwestiynu ymhellach.<br>**CYFNOD ALLWEDDOL 2:** Ymestyn gwybodaeth y disgyblion o arferion crefyddol a chredodau. Darparu mwy o gyfleoedd i drafod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn crefyddau. |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: DA** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),<br>Dengys y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol ymwybyddiaeth dda o werthoedd a chredoau Cristnogol, megis rhannu ag eraill a gofalu amdanynt. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian at elusennau megis Plant Mewn Angen ac elusen lleol- Lighthouse, datblyga'r holl ddysgwyr ymwybyddiaeth dda eu bod yn rhan o gymuned fyd-eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn. Rhoddir gyfle i ddatblygu 'Lais Y Plentyn' drwy roi cyfrifoldebau am gasglu arian a pha elusennau i'w gefnogi i'r Cyngor Ysgol.<br>Wrth ymweld â lleoedd o addoliad yn yr ardal, datblyga'r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath, megis bedyddio. Mae ganddynt wybodaeth dda o rai o brif hanesion yn y Beibl.<br>Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod am, ac yn dathlu digwyddiadau'r calendr Cristnogol, gan gymryd rhan yng ngwyliau'r Cynhaeaf, Nadolig a Phasg. |

Gall disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ddisgrifio nodweddion ym mywydau enwogion, e.e. Mari Jones, Florence Nightingale a Dewi Sant, sydd wedi bod yn arweinwyr pwysig neu wedi achosi newidiadau yn y byd.
Erbyn diwedd CA2 mae gan y disgyblion dealltwriaeth dda o resymau am bererindodau a ymgymera Cristnogion, Iddewon a Mwslemiaid, ac am y dulliau o'u cynnal.
Datblyga disgyblion sgiliau ABCh da o ganlyniad i'r ystod eang o destunau yr ymdrinnir â hwynt yn eu hastudiaethau addysg grefyddol.

Nodiadau:
Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llais y plentyn gan gyflwyno mwy o gyfleoedd i fynegi barn a thrafod datblygiadau, chysyniadau ac agweddau crefyddol

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

**Y CYFNOD SYLFAEN**
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau fod gofynion y fframwaith yn cael ei ddiwallu.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Bydd y ficer lleol yn dod i weithio gyda'r plant unwaith pob mis.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**
- Yn ystod y cyfnodau Addysg Grefyddol, pwysleisir ar y cwestiynau mawr. Mae sgiliau'r plant i drafod a chwestiynu yn datblygu'n dda.
- Bydd y plant yn cael gwrando ar storïau a thrafod agweddau ohonynt.
- Defnyddir technoleg gwybodaeth i gyflwyno agweddau o'r maes llafur ac mae hyn yn sbardun i waith trafod.
- Mae adnoddau a llyfrau addas ar gael yn yr ysgol ac mae'r rhain o safon uchel ac maent yn gyfredol. Defnyddir clipiau fideo neu achos lleol i gyflwyno agweddau o'r gwaith.
- Mae cynlluniau ar gael yn yr ysgol ond mae angen ail edrych ar y rhain yn sgil ail drefnu dosbarthiadau'r ysgol.

Nodiadau:
**Y CYFNOD SYLFAEN** Ail edrych ar y cynlluniau
**CYFNOD ALLWEDDOL 2**. Ail edrych ar y cynlluniau yn sgil ail drefnu dosbarthiadau a phersonél.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Mae cyfnod o addoli ar y cyd yn cael ei gynnal yn ddyddiol boed hynny fel ysgol gyfan, Cyfnod Allweddol neu ddosbarth Unigol.

| |
|---|
| Bydd y gwasanaethau wedi eu selio ar Gristnogaeth. Mae hawl gan rieni i neilltuo eu plant o'r cyfnodau Addoli ond ar hyn o bryd, does neb yn dewis gwneud hyn.<br>Yn ystod y cyfnod o addoliad bydd y plant yn cael cyfle i weddïo, canu, myfyrio, trafod, gwrando ar storïau, actio ,darllen ayyb. Bydd y ficer lleol yn arwain un gwasanaeth pob mis.<br>Defnyddir y cyfnodau yma i drafod cwestiynau mawr ac i gyflwyno gwaith y dosbarth i weddill yr ysgol. Byddant yn cael eu defnyddio fel arf ar gyfer datblygu cwestiynau moesol, agweddau o ddinasyddiaeth byd eang a datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn pwysleisio fod angen dathlu tebygrwydd a gwahaniaethau.<br>Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn eglwys y pentref e.e. Christingle, ymweld a'r cartref henoed lleol a chymryd rhan yn gwasanaeth carolau'r Urdd.<br>Bydd y pennaeth yn cynnal 'amser sgwrs' gyda plant BL 5&6 er mwyn iddynt rannu neu drafod os oes ganddynt bryderon neu hyd yn oed dweud os oes rhywbeth wedi ei gwneud yn hapus. Bydd hyn yn gwneud i blan deimlo'n gyfforddus a saff yn yr ysgol.<br>Mae materion ABaCh yn cael eu cyflwyno yn drawsgwricwlaidd. Mae sesiynau amser cylch yn caniatáu cyfleoedd da i'r disgyblion fynegi barn, rhannu a thrafod teimladau a materion o bwys iddynt. Mae trefn i drafod gwaith cartref nad yw disgybl wedi ei ddeall a chyfle yn ystod amser dosbarth i fynd drosto yn rhoi hyder i ddisgyblion i rannu unrhyw anawsterau.<br>Mae gan yr ysgol gyswllt weithredol effeithiol gydag asiantaethau arbenigol, yn cynnwys y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau meddygol, seicolegwyr addysg, yr heddlu, nyrs ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol.<br>Prin fod unrhyw gam ymddwyn yn yr ysgol ac mae trefniadau effeithiol yn ei lle i ddelio ac unrhyw ddigwyddiadau. Mae egwyddorion yr ysgol yn amlwg ac yn effeithiol iawn i bawb ac yn helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir a datblygu hunan barch. Bydd hyn yn cael atgoffa mewn gwasanaethau boreuol. Mae'r ysgol yn cynnal gwobr 'Ser yr Wythnos' sy'n annog ac yn dathlu ymddygiad ac ymdrech arbennig. Mae adroddiadau o 'wir' fwlio yn brin iawn. Mae'r ysgol yn mabwysiadu safbwynt llym iawn ar fwlio.<br>Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.<br>Mae'r ysgol yn darparu addoli ar y cyd a gwasanaethau sy'n chwarae rhan bwysig yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ar Ddydd Mercher cyntaf o pob mis mae Cannon Philip Barratt yn rhoi gwasanaeth ysgol gyfan. Mae hyn yn cryfhau'r cyswllt gymunedol ac hefyd yn rhoi cyfleoedd pellach i gyd-addoli. Mae'r gweithredoedd cyd-addoli yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.<br>Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd drwy'r gwasanaethau boreol yn ogystal a gwaith ar lawr y dosbarth. Mae ethos deuluol yr ysgol yn nodwedd cadarnhaol ac mae'r ysgol yn ymfalchïo yn yr holl ddisgyblion. |
| Nodiadau:<br>Trafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu y dosbarthiadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: DA** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| **CYFNOD SYLFAEN:** Mwy o gyfle am drafodaethau. Datblygu cwestiynu ymhellach. | Gwasanaeth ysgol 3 gwaith yr wythnos gyda agweddau crefyddol. | Athrawon | Cychwyn Ionawr 2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwersi Addysg Grefyddol pwrpasol sydd yn rhoi cyfle i blan drafod gwestiwn mawr agored. | | |
| **CYFNOD ALLWEDDOL 2:** Ymestyn gwybodaeth y disgyblion o arferion crefyddol a chredodau. Darparu mwy o gyfleoedd i drafod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn crefyddau. | Gwasanaeth ysgol 3 gwaith yr wythnos gyda agweddau crefyddol.<br><br>Gwersi Addysg Grefyddol pwrpasol sydd yn rhoi cyfle i blan drafod gwestiwn mawr agored. | Athrawon | Cychwyn Ionawr 2019 |
| Ail edrych ar y cynlluniau yn sgil ail drefnu dosbarthiadau a phersonél. | Ail edrych ar gynlluniau a sicrhau eu bod yn cyfarfod gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru. | Cydlynydd | Ionawr 2020 |
| Trafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu y dosbarthiadau. | Ystyried gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru a cynllunio sesiynau addoli ar y cyd i gyd fynd gyda'r gofynion hyn. | Pennaeth | Ionawr 2020 |
| Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llais y plentyn gan gyflwyno mwy o gyfleoedd i fynegi barn a thrafod datblygiadau, chysyniadau ac agweddau crefyddol | Gwersi Addysg Grefyddol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion drafod ac ymchwilio i gwestiynau mawr a cael cyfleoedd i fynegi barn. | Athrawon | Medi 2018 |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae'r ysgol yn darparu addoli ar y cyd a gwasanaethau sy'n chwarae rhan bwysig yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ar Ddydd Mercher cyntaf o pob mis mae Cannon Philip Barratt yn rhoi gwasanaeth ysgol gyfan. Mae hyn yn cryfhau'r cyswllt gymunedol  ac hefyd yn rhoi cyfleoedd pellach i gyd-addoli.  Mae'r gweithredoedd cyd-addoli yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Iolo Evans** |
| **Llofnod y pennaeth** | Iolo Evans |
| **Dyddiad:** | 24-01-19 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).**
**Standing Advisory Council on Religious Education (SACRE)**

**Cyfansoddiad Ynys Môn Constitution .**
**2017 2018.**

1. **Aelodau cynrychioliadol / Representative Members**

**(a) y cyfryw enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill ac enwadau crefyddau eraill ag a fydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol yr ardal;**

**such Christian denominations and other religions and denominations of such religions as, in the opinion of the authority, will appropriately reflect the principal religious traditions in the area**

Undeb Bedyddwyr Cymru / The Baptist Union of Wales – Mrs Catherine Jones
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg / Union of Welsh Independents – Prof Euros Wyn Jones
Yr Eglwys Gatholig Rufeinig / The Roman Catholic Church – Christopher Thomas
Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Mrs Einir Morris
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales – Anest Gray Frazer
Yr Eglwys Fethodistaidd / The Methodist Church – Parch Kate McClelland
Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru - Rheinallt Thomas

**(b) y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon ag a ddylai, ym marn yr awdurdod ac o gofio amgylchiadau'r ardal, gael eu cynrychioli;**

**such associations representing teachers, as in the opinion of the authority, ought having regard to the circumstances of the area, to be represented**

**2 aelod o staff ysgolion uwchradd / 2 members of staff from secondary schools**
Heledd Hearn , Uwchradd Bodedern, a Mefus Edwards, Syr Thomas Jones

**2 aelod o staff ysgolion cynradd / 2 members of staff from primary schools**
Alison Jones, Cybi, a Manon Morris Williams, Llangaffo/Dwyran/Niwbwrch

**(c) yr Awdurdod / the Authority;**

6 **aelod etholedig / 6 elected members –**
Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Alun Mummery (is gadeirydd / vice chair) , Bryan Owen, Dylan Rees (cadeirydd / chair), Alun Roberts.

2. **Aelodau eraill / Other members-**

**Ymgynghorydd Her GwE Challenge Adviser – Bethan James**
**Clerc CYSAG Clerk – Gareth Jones**
**Swyddog Pwyllgorau / Committees Officer – Shirley Cooke**

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru,**
**yn Ysgol Llanilltud Fawr, Llanilltud Fawr CF61 1TQ**
**Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018**
**10.30a.m. – 2.45p.m.**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas (RT)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KD)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>John Taylor (JT)<br>Enfys Hawthon (EH)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Helen Gibbon (HG)<br><br>**Ceredigion**<br><br>**Conwy**<br><br>**Sir Ddinbych / *Denbighshire*** | **Sir y Fflint / *Flintshire***<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Goldsworthy (EG)<br>Mark Prevett (MkP)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>**Sir**<br>Tudor Thomas (TT)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br>Hugh James (HJ)<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Ilona Dziedzic (ID)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Amanda Lawrence (AL)<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT)<br>Mathew Maidment (MM) | **Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding -Richard (JHT)<br>Alison Lewis (AL)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Dafydd Trehearn (DT)<br>Eddie Wiliams (EW)<br>Rob Crowley (RC)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Tudor Thomas, MAGC<br>Marged Williams, Ysgol Llanilltud Fawr<br><br>**Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Kevin Plamer, LlC<br>Andrew Pearce, CBAC<br><br>**Cofnodion / *Minutes***<br>Gill Vaisey (GV) |

## Cofnodion y cyfarfod

### 1. Cyflwyniad a chroeso

Cyn y cyfarfod mwynhaodd yr aelodau eitemau cerddorol gan ddisgyblion yr ysgol.

Estynnwyd croeso gan y Cynghorydd Bob Penrose, Aelod Cabinet Dysgu a Diwylliant Bro Morgannwg i'r Awdurdod Lleol ac yn arbennig i Ysgol Llanilltud Fawr. Diolchodd i'r Pennaeth, Fiona Gravell am letya cyfarfod PYCAG y diwrnod cynt a chyfarfodydd CCYSAGauC yn yr ysgol hon a ail-fodelwyd.

Diolchwyd hefyd i Marged Williams, Pennaeth AG yn yr ysgol am helpu i drefnu'r diwrnod.

Siaradodd y Cyng Penrose am yr her a gyflwynir gan y cwricwlwm newydd. Dywedodd fod angen i AG gael lle amlwg gan fod Addysg Grefyddol yn rhan sylfaenol o'r cwricwlwm, ac mae iddi werth enfawr. Cyfeiriodd at yr angen i GYSAGau elwa ar ymrwymiad, brwdfrydedd a sgiliau a gwybodaeth pob un o'r grwpiau ar y pwyllgor.

Diolchodd EE i'r Cyng Penrose am ei groeso cynnes a'i sylwadau.

### 2. Adfyfyrio tawel

Adroddodd EE un o hanesion pobl Cariboo sy'n ategu'r angen am heddwch ar draws y byd. Gall unigolion gael grym torfol os ydynt yn gweithio gyda'i gilydd.

### 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rachel Samuel, Cyng Lyndon Lloyd, Janet Jones, Tania ap Sion, Dylan Rhys, Manon Jones.

### 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llangefni, 6 Gorffennaf, 2018

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

### 5. Materion yn codi

Eitem 5. Ers i GYSAG Sir Gaerfyrddin godi'r mater fod angen i bob gohebiaeth fod yn ddwyieithog, cadarnhawyd fod popeth a anfonwyd ers y cyfarfod diwethaf wedi bod yn y ddwy iaith.

LJ i holi Lynda Maddock ynghylch cynrychiolydd o CBAC. Mae LJ wedi siarad â Lynda Maddock ac Andrew Pearce a ddywedodd y byddant yn gwneud eu gorau i fynychu cyfarfodydd PYCAG a CCYSAGauC. Pwysleisiwyd pwysigrwydd yr angen i gynrychiolwyr CBAC fynychu PYCAG a CCYSAGauC i helpu yn y broses gyfathrebu bwysig iawn ac er mwyn iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau yn y cwricwlwm newydd.

Eitem 6. Linda Rudge a Marc Ansawdd Addysg Grefyddol (REQM). Adroddodd PW ei bod hi wedi mynd ar ôl hwn. Mae cyllid LTLRE wedi cael ei dynnu'n ôl a'i ail-ddyrannu i brosiect newydd sy'n cael ei wneud gan *RE Today Services* ar ran Culham St Gabriels.

Mae pedwar allan o'r pum CYSAG y mae PW yn gweithio gyda nhw yn awyddus i hyrwyddo'r Marc Ansawdd yn eu hawdurdodau. Adroddodd LJ y gallai tair ysgol ym mhob cylch gael eu hariannu i wneud cais am y dyfarniad Marc Ansawdd.

Eitem 7. Adolygiad Thematig Estyn. Adroddwyd y bydd PYCAG yn ymateb i'r adroddiad hwn. Gofynnodd LJ a fydd CCYSAGauC yn gwneud yr un fath.

Awgrymodd RT y dylai CCYSAGauC ateb ond gan ein bod yn dibynnu ar aelodau PYCAG am gymorth proffesiynol yn y meysydd hyn, gallai CCYSAGauC ystyried eu hadroddiad a'i addasu i ffurfio ymateb gan CCYSGauC.

**Gweithredu:** Cytunwyd y byddai CCYSGauC yn edrych ar ymateb PYCAG i Estyn ac yn creu eu hymateb eu hunain.

Eitem 9. Mae Rôl yr Ysgrifenyddiaeth wedi'i rhannu erbyn hyn fel y gobeithid, ac mae'r swyddogaethau unigol i gyd wedi cael eu rhannu ymhlith y Pwyllgor Gwaith.

Eitem 10. Mae'r gynhadledd a gynigiwyd ar gyfer 2019 yn mynd i gael ei gohirio am nifer o resymau tan Hydref 2019. Bydd gan y Gwasanaeth Addysg Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru Fframwaith Cefnogol i'w hysgolion, felly bydd tri Fframwaith Cefnogol ar waith yng Nghymru. Bydd angen dwy sesiwn hyfforddi arnom - y naill yn Hydref 2019 ac yna lansio'r Fframwaith Cefnogol pan fydd ar gael. Mae angen i ni ystyried pwy fyddai'n talu am y cynadleddau - yr un gyntaf i'w hariannu gan CCYSAGauC ond byddai'n ymddangos yn addas fod y lansio yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Eitem 13. Mae cyfeiriad e-bost i CCYSAGauC wrthi'n cael ei sefydlu.

Cafwyd gwahoddiad gan David Hampshire i gyfarfodydd y Rhwydwaith Rhyng-ffydd.
Diweddarwyd logo CCYSAGauC ar wefan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd.
Awgrymodd RT y gallai CCYSAGauC holi a allai CCYSAGauC gael lle ar y Rhwydwaith.

## 6. Cyflwyniad PYCAG:

**Kevin Palmer, Llywodraeth Cymru.**

**Dysgu Proffesiynol Penodol Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm Newydd**

Eglurodd Kevin y byddai ei gyflwyniad yn ymdrin â dysgu proffesiynol ac nid y cwricwlwm ar hyn o bryd. Hoffai gael cyfle arall i ddod yn ôl at CCYSAGauC i roi cyflwyniad yn fwy penodol ar AG yn y cwricwlwm newydd.

Rhoddodd KP ddiffiniad o 'ddysgu proffesiynol'.

Amlinellodd yr angen am 'hawl' i ddysgu proffesiynol. Gyda phwyslais ar lythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol, mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn rhoi lle i bynciau eraill yn cynnwys AG.

Mae ar y darparwyr angen meini prawf cynllunio clir er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae angen i LlC fod yn atebol a thryloyw ynglŷn â sut mae'r cyllid a ddyrennir yn cael ei wario. Mae LlC wedi ymrwymo buddsoddiad o £24 miliwn i ysgolion ar gyfer dysgu proffesiynol.

Bydd dull gweithredu cenedlaethol o ddysgu proffesiynol gyda'r disgybl wrth galon y model. Mae'n rhaid iddo gael effaith ar ddysgu'r disgyblion neu nid yw'n addas fel arall. Mae angen iddo gysylltu â Phedwar Diben y cwricwlwm newydd.

Tynnodd KP sylw at bwyntiau allweddol o'i gyflwyniad a fydd yn cael eu rhoi ar gael i CCYSAGauC:

Mae pob dysgwr proffesiynol yn wahanol ac mae ganddynt anghenion gwahanol. Felly, mae angen i'r dysgu proffesiynol fod yn unigoledig. Mae angen cydnabod ardaloedd gwahanol, ysgolion lleol, cyd-destunau cenedlaethol.

Mae angen i ni sylweddoli sut mae addysgeg dda yn edrych i'r model dysgu proffesiynol.

Mae achredu a chydnabod dysgu proffesiynol yn cael ei ddatblygu.

Diweddarwyd Safonau Athro ac Arweinyddiaeth proffesiynol.

Rhwydweithiau – dull seiliedig ar ymchwil – yn dangos fod ymarferwyr yn gweithio orau pan maen nhw'n gweithio ar draws ysgolion i gefnogi dysgu proffesiynol ei gilydd.

Taith ddysgu broffesiynol yr unigolyn - mae angen i athrawon feddwl ymlaen am sut bydd eu pwnc yn datblygu yn y dyfodol.

Mae Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol (bron i 100) yn gwerthuso goblygiadau datblygiadau yn y cwricwlwm newydd ar ddysgu proffesiynol.

Holodd PW sut bydd hyn yn cael ei sicrhau o ran ansawdd. Dywedodd KP mai rôl Estyn yw hyn. Bydd y consortia yn sicrhau ansawdd gwaith ei gilydd hefyd.

Mynegwyd pryder am gyrff masnachol yn 'disgwyl eu tro' i ddatblygu deunyddiau i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Y neges gan Lywodraeth Cymru fydd bod prynu cynllun gwaith neu gwricwlwm parod yn cael ei ystyried yn arfer gwael ac yn annerbyniol.

Holodd EW am gapasiti'r staff addysgu a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r meddylfryd hwn.

Dywedodd KP fod £24 miliwn yn mynd i ysgolion dros y 18 mis nesaf = £800 yr athro - os defnyddir yr arian hwn yn gydweithredol, h.y. ei grynhoi er mwyn cael y budd mwyaf ohono i gynhyrchu deunyddiau newydd a manteisio ar gyfleoedd HMS - yna bydd yn effeithiol.

Awgrymodd BP fod cyllid yn cael ei gymryd o un maes i gefnogi maes arall.

Holodd PW sut mae LlC yn bwriadu darparu hyfforddiant pan mae arbenigedd arbenigwyr AG wedi ei leihau yn ddiweddar. Cynigiodd KP drafod y pryder hwn ymhellach gyda CCYSAGauC a'r angen i fynd i'r afael ag ef a rhoi cefnogaeth ariannol.

**Gweithredu:** PW i drafod ymhellach gyda KP y broblem fod arbenigedd AG yn crebachu.

**Manon Jones – Ymgysylltu â ChYSAGau**

Bu'n rhaid i Manon ymddiheuro oherwydd salwch.

Rhoddodd PW ddiweddariad yn ei lle. Adroddodd PW fod yr ymatebion gan GYSAGau wedi dangos cefnogaeth i'r syniad am 'Fframwaith Cefnogol i AG' a fydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gallai'r Fframwaith Cefnogol hwn gael ei addasu neu ei fabwysiadu gan GYSAGau i fod yn Faes Llafur Cytûn i AG.

Edrychodd yr aelodau ar gyflwyniad gan yr Athro Donaldson y gellir ei wylio yma:

https://www.youtube.com/watch?v=oQ-rX4besgw&feature=youtu.be

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd rhwng LlC a ChYSAGau ym mhob Consortiwm, dywedodd PW y dylai CYSAGau ymateb fel pwyllgor yn hytrach nag fel aelodau unigol.

Ym mis Ionawr 2020 bydd y ddogfen ymgynghori derfynol yn cael ei chyhoeddi cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben ym Mehefin/Gorffennaf 2020.

Mynegwyd pryder am lwyth gwaith athrawon a sut bydd ganddynt amser nid yn unig i barhau i ddysgu ond hefyd i ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm newydd ynghyd â rhoi eu meddwl ar sut bydd pynciau yn newid a datblygu yn y dyfodol.

Nododd MM ein bod newydd gael newid anferth gyda'r TGAU ac mae disgwyl i athrawon ysgwyddo mwy o newidiadau sylweddol yn her enfawr.

Ategodd TT y galwadau afrealistig sydd ar athrawon a dywedodd na fydd yr £800 i bob athro y soniodd KP amdano ynghynt yn mynd yn bell o ran cefnogaeth broffesiynol. Pwysleisiodd un Pennaeth yr angen i ystyried lles athrawon a dywedodd fod hyn yn hollbwysig ac na ddylid ei anwybyddu. Dywedodd na fu amser gwaeth o ran diffyg cyllid i ysgolion.

**7. Cefnogaeth AG Broffesiynol i GYSAGau / Awdurdodau Lleol**

Adroddodd EE fod CCYSAGauC wedi ysgrifennu at bob ALl yng Nghymru yn gofyn am fanylion pa lefel o gefnogaeth a roddir i'r CYSAG o ran cymorth AG proffesiynol, gweinyddiaeth (clerc) a swyddog addysg. Nodwyd fod pymtheg ALl wedi ymateb gyda manylion. Fodd bynnag, ers yr adroddiad hwn mae'r sefyllfa wedi newid mewn sawl awdurdod.

Mae Mary Parry wedi ymddeol felly nid yw mwyach yn dal y swydd yn Sir Gaerfyrddin nac yn cefnogi CYSAG Sir Benfro chwaith. Nid oes gan Gonsortiwm Canolbarth y De gefnogaeth AG arbenigol bellach i helpu'r pum CYSAG, ond mae ganddynt Maggie Turford, sydd yn addysgwraig brofiadol.

Adroddodd LJ fod PYCAG hefyd wedi mynd i weld y Cyfarwyddwr Addysg hynny nad oes ganddynt gynghorydd proffesiynol penodol i CYSAG i gadarnhau pwy sy'n rhoi'r gefnogaeth honno.

Mae'r sefyllfa bresennol o ran cefnogaeth broffesiynol i GYSAGau fel a ganlyn:

Ynys Môn - Helen Bev, Pennaeth AG yn Ysgol David Hughes. Nodwyd ei bod yn faich mawr ar athrawon llawn amser i gefnogi CYSAG oni eu bod yn cael amser digonol i gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau ysgol i ymgymryd â gwaith CYSAG.
Sir Gaerfyrddin – Mae Marian Morgan yn llanw er nad hi sydd wedi dod yn lle Mary Parry
Ceredigion - Alwyn Roberts
Conwy – dim ymateb
Gwynedd – dim ymateb
Sir y Fflint – dim ymateb
Sir Ddinbych – ymateb dros dro
Sir Benfro – Amanda Lawrence Pennaeth Ysgol Gynradd
Powys – Sian Fielding, Cynghorydd Herio
Castell Nedd Port Talbot – Nid oes gan Rachel Samuel, Pennaeth AG, unrhyw amser penodedig heblaw ar gyfer mynychu cyfarfodydd.
Abertawe - Jennifer Richards – wedi cael 15 diwrnod i gefnogi'r CYSAG.
Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful (Consortiwm Canolbarth y De) – newydd benodi Maggie Turford sydd dim yn arbenigwr ond yn addysgwraig brofiadol.
Torfaen, Casnewydd, Blaenau; Gwent, Caerffili, Sir Fynwy – mae EAS wedi penodi Paula Webber sy'n arbenigwr AG i weithio'n llawn amser.
Wrecsam - Ymgynghorydd AG penodedig (4 diwrnod) yn cael ei ddarparu gan Sefydliad Addysgol Plwyfol Wrecsam.

Nododd RT fod Cadeirydd Ynys Môn wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr y Consortia am eu pryder fod yr arbenigwyr AG, Bethan James a Phil Lord, wedi cael eu tynnu o ddarparu cefnogaeth i'r CYSAG gan y consortia ond ni chafwyd ymateb. Adroddodd mai ymateb Kirsty Williams yw bod hwn yn fater i'r ALl ac nid i LlC.

Dywedodd DT, er bod gan Gonsortiwm Canolbarth y De Arbenigwr AG ar ei staff, nid yw hi wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r CYSAGau ond yn hytrach mae rhywun nad yw'n arbenigwr wedi cael ei phenodi i wneud y gwaith CYSAG.

Awgrymodd LJ fod CCYSAGauC yn ysgrifennu at y consortia perthnasol i ofyn pam nad ydynt yn darparu cefnogaeth AG arbenigol i GYSAG eu Hawdurdodau Lleol. Gellid ysgrifennu llythyr at y consortia hefyd i ofyn pam nad ydynt yn sicrhau fod ganddynt gefnogaeth arbenigol AG i'r CYSAGau, ond nodwyd ei bod yn bosibl nad yw hyn yn rhan o'r cytundeb rhwng yr ALlau a'r Consortia ac nad yw'r ALlau o bosibl yn talu i'r Consortia wneud hynny.

Ategodd HW eto yr angen am gefnogaeth arbenigol AG a nododd fod CYSAG yn dibynnu ar arbenigedd rhywun ym maes AG i ddelio â materion penodol, nid lleiaf cynghori ar y Maes Llafur Cytûn ac ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol.

**Gweithredu:**

a) CCYSAGauC i ysgrifennu at y Gweinidog am y mater hwn.

b) Mynd â'r pwnc hwn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf gyda LlC yn y gwanwyn.

c) Ysgrifennu at y consortia nad ydynt yn darparu cefnogaeth AG arbenigol i'w ALlau.

d) Ysgrifennu at yr ALlau nad oes ganddynt gefnogaeth AG arbenigol i'r CYSAGau.

## 8. Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC

Cyhoeddodd EE fod Mary Parry wedi ymddeol o'i swydd gyda Sir Gaerfyrddin ac felly nad yw hi mwyach yn aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC. Gwahoddir CYSAG Sir Gaerfyrddin i enwebu rhywun yn ei lle tan 2019.

Gan nad yw Gill Vaisey yn gysylltiedig â ChYSAG mwyach, nodwyd nad yw hi'n gymwys i barhau fel Is Gadeirydd ac felly ni all ddod yn Gadeirydd CCYSAGauC yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol nesaf. Eglurodd GV fod Consortiwm Canolbarth y De, wedi dod â'i swydd fel ymgynghorydd i GYSAG Caerdydd i ben, a hynny yn sydyn heb unrhyw gyfathrebu nag ymgynghori gyda hi ymlaen llaw.

Er mwyn rheoli'r sefyllfa annisgwyl hon, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi awgrymu fod y Cadeirydd parhaol yn parhau am flwyddyn ychwanegol tra bod Is Gadeirydd newydd o haf 2019 yn setlo yn y swydd.

Nodwyd fod LJ wedi cynnig gweithredu fel Is Gadeirydd tan 2019 ond y byddai'n ormod o waith iddi mewn gwirionedd, pe bai gofyn iddi gadeirio cyfarfod CCYSAGauC yn ogystal â chyfarfod PYCAG y diwrnod cynt.

Awgrymodd DT nad yw hi'n deg i un person ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb.

Awgrymodd RT fod yr aelodau'n derbyn cynnig y Pwyllgor Gwaith. Pe bai angen byddai ef yn cynnig cadeirio cyfarfod CCYSAGauC pe na fyddai'r Cadeirydd ar gael. Awgrymodd TT fod angen denu mwy o bobl i rannu'r swyddi pwysig yma.

Cynigiodd AL drafod â'r Pwyllgor Gwaith y posibilrwydd ei bod hi'n cymryd swydd yr Is Gadeirydd.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau fod y Pwyllgor Gwaith yn gyflawn gydag unigolion sy'n gallu bod yn aelodau gweithgar a gwneud gwaith y pwyllgor yn effeithiol.

Cytunwyd y bydd GV yn parhau fel cynrychiolydd yr REC a hefyd fel cynrychiolydd EftRE i CCYSAGauC.

Bydd PW yn dod yn drydydd cynrychiolydd REC ochr yn ochr â Tania ap Sion sydd hefyd yn gynrychiolydd ar hyn o bryd.

## 9. Addoli ar y Cyd

Nodwyd fod y ddogfen a baratowyd gan EE ar Addoli ar y Cyd wedi cael ei hanfon i GYSAGau. Cytunwyd i argymell i GYSAGau eu bod yn ystyried y papur hwn yn eu cyfarfod nesaf.

**Gweithredu:** Argymell i GYSAGau eu bod yn rhoi'r papur ar Addoli ar y Cyd ar eu hagenda gyda golwg ar ei ddosbarthu i bob ysgol yn eu hawdurdod lleol.

**10. Diweddariadau:**

1. Andrew Pearce - Adborth CBAC a Lefel A o ganlyniadau 2018.

Rhoddodd AP drosolwg ar sut mae’r TGAU newydd yn datblygu. Amlinellodd y canfyddiadau hyd yma o’r canlyniadau a’r papurau a dderbyniwyd. Ni wnaeth nifer o ysgolion roi cynnig ar y fanyleb TGAU eleni.

Mae’r cyflwyniad *power point* ar gael i ganolfannau ac fe’i rhoddir ar gael i aelodau CCYSAGauC hefyd.

Nodwyd ei bod yn arferol i Ysgolion Catholig neilltuo mwy o amser cwricwlwm i Astudiaethau Crefyddol i ymdrin â manyleb TGAU ac efallai fod hyn yn esbonio’r canlyniadau cadarnhaol amlwg mewn Ysgolion Catholig.

Trafododd AP y canlyniadau Lefel A hefyd gan nodi fod graddau wedi gwella 2% eleni o’i gymharu â’r blynyddoedd blaenorol. Roedd y nifer yn cynnig wedi cynyddu eleni yng Nghymru ond yn Lloegr gwelwyd gostyngiad sylweddol.

Y papur mwyaf poblogaidd yw’r un ar Fwdhaeth. Cafwyd canlyniadau ardderchog yn y papur gorfodol ar Grefydd a Moeseg. Nid yw’n ymddangos fod y diffyg gwerslyfrau wedi amharu ar y canlyniadau. Ond yn y fan yma dywedodd athro fod y diffyg hwn wedi effeithio ar les athrawon gan eu bod wedi gorfod gwneud i fyny am y diffyg llyfrau. Dywedodd AP y bydd llyfrau ar gael yn y dyfodol.

Mae ‘Share Space’ ar gael fel adnodd i athrawon. Mae gan *RE Online* fideos defnyddiol sy’n dangos gwerth Addysg Grefyddol fel pwnc.

Daeth AP i ben drwy longyfarch yr ysgolion ar eu canlyniadau ardderchog.

Nododd RT fod CYSAG Ynys Môn wedi cwyno fod y papur arholiad AG Cymraeg anghywir wedi’i roi i’r ymgeiswyr. Dywedodd AP fod y sefyllfa wedi cael ei datrys yn effeithiol iawn ac na fu’r disgyblion o dan anfantais ac na chafwyd graddau is o ganlyniad i’r sefyllfa.

Gwahoddodd PW Andrew Pearce i gyfarfodydd yn y dyfodol gan ddweud y byddai hyn yn fanteisiol i CCYSAGauC ac i CBAC fel ei gilydd.

2. Rudi Lockhart Y Comisiwn ar AG – cyhoeddwyd y ddogfen derfynol ar 9 Medi 2018

Amlinellodd RL yr adroddiad a’r hyn y mae’r Cyngor Addysg Grefyddol yn ei wneud yn ei sgil.

Tynnodd sylw at dair elfen.

1. Gweledigaeth newydd i’r pwnc

Mae’r adroddiad yn cynnig teitl newydd i’r pwnc - Crefydd a Golwg ar y Byd. Dywedodd nad yw hyn yn golygu ychwanegu ‘golwg ar y byd’ at y cwricwlwm.

Mae golwg ar y byd yn cyfeirio at natur y pwnc – sef wrth archwilio crefydd, bydd modd trafod sut mae pobl yn gweld y byd. Y bwriad yw cwmpasu popeth sy'n dda mewn addysg grefyddol tra'n cydnabod amrywiaeth a pheidio â bod wedi'ch cyfyngu gan ffiniau.

Mae tudalennau 12 a 13 yn trafod yr hawl cenedlaethol a thudalennau allweddol yr adroddiad ond ceir syniad mwy cyflawn wrth ddarllen y ddogfen i gyd.

2. Y Strwythur Cyfreithiol

Mae'r REC am awgrymu enwau pobl a allai ysgrifennu rhaglen astudiaeth genedlaethol anstatudol gyda golwg ar ei gwneud yn statudol yn y dyfodol.

Wedi i'r rhaglen astudiaeth ddod yn statudol byddai angen galw Cynhadledd Maes Llafur Cytûn. Byddai ysgolion yn gallu dewis p'un ai i ddilyn y maes llafur cenedlaethol neu Faes Llafur Cytûn y cytunwyd arno'n lleol.

Gellir ail-frandio CYSAGau a'i galw'n Rhwydweithiau Cynghorol Lleol

Awgrymwyd nad yw'n ymarferol cael gwared ar yr hawl i dynnu plant yn ôl o AG.

3. Cynllun ariannu cenedlaethol

Mae'r adroddiad yn cynnig nifer cynyddol o oriau ar gyfer AG mewn hyfforddiant athrawon i 12 awr – er cydnabyddir nad yw hyn yn ddigon.

Rhannwyd y sylwadau cyffredinol canlynol.

Gwelwyd ymatebion cadarnhaol iawn i'r adroddiad gan y rhan fwyaf o sefydliadau. Cafwyd nifer fechan o ymatebion beirniadol gan dri chorff yn bennaf – y Bwrdd Dirprwyon Iddewon, NASACRE a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig.

Mae'r REC wedi bod yn lobïo Aelodau Seneddol yn San Steffan ac mae pawb yn cael eu hannog i ysgrifennu at eu AS drwy lythyr templed sydd ar gael gan yr REC.

Mae angen codi ymwybyddiaeth am yr adroddiad o fewn y cymunedau AG mewn CYSAGau a rhwydweithiau athrawon.

Awgrymodd LJ y bydd PYCAG yn rhoi papur at ei gilydd i ystyried beth y gall gymryd o'r adroddiad a rhannu'r rhain gyda Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

Dywedodd RL fod y newid enw wedi cael cryn sylw gan y cyfryngau ond nad enw'r pwnc sy'n bwysig mewn gwirionedd ond y cyd-destun.

***Cau'r cyfarfod***

Oherwydd cyfyngiadau ar symud o amgylch yr ysgol daeth y cyfarfod i ben am 3.48 p.m.

**11. Gwefan CCYSAGauC**

Nis trafodwyd.

**12. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018**

Nis trafodwyd.

**13. Gohebiaeth**

Nis trafodwyd.

**14. Unrhyw Fater Arall**

Nis trafodwyd.

**15. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Gwanwyn 2019 – Caerdydd 26 Mawrth

Haf 2019 – Conwy (dyddiad i'w gadarnhau)

Diolchodd EE i bawb a oedd wedi cefnogi'r cyfarfod:

Y Pennaeth Fiona Gravell, Marged Williams, Pennaeth AG, a staff a disgyblion Ysgol Llanilltud Fawr

Jeremy Morgan, Clerc CYSAG Bro Morgannwg

Cynghorydd Bob Penrose, Aelod Cabinet Dysgu a Diwylliant Bro Morgannwg

Cynghorydd Eddie Williams, Cadeirydd CYSAG Bro Morgannwg

Maggie Turford, Ymgynghorydd i GYSAG Bro Morgannwg

Steffan William, Cyfieithydd

Kevin Palmer, Andrew Pearce a Rudi Lockhart am y cyflwyniadau.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Wales Association of SACREs meeting, at Llantwit Major School, Llantwit Major CF61 1TQ***
***Tuesday, 20 November 2018***
**10.30a.m. – 2.45p.m.**

**Attendance**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas (RT)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KD)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>John Taylor (JT)<br>Enfys Hawthon (EH)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Helen Gibbon (HG)<br><br>**Ceredigion**<br><br>**Conwy**<br><br>**Sir Ddinbych / *Denbighshire*** | **Sir y Fflint / *Flintshire***<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Goldsworthy (EG)<br>Mark Prevett (MkP)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>**Sir**<br>Tudor Thomas (TT)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br>Hugh James (HJ)<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Ilona Dziedzic (ID)<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Amanda Lawrence (AL)<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT)<br>Mathew Maidment (MM) | **Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding -Richard (JHT)<br>Alison Lewis (AL)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Dafydd Trehearn (DT)<br>Eddie Wiliams (EW)<br>Rob Crowley (RC)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Tudor Thomas, MAGC<br>Marged Williams, Llantwit School<br><br>**Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Kevin Plamer, WG<br>Andrew Pearce, WJEC<br><br>**Minutes**<br>Gill Vaisey (GV) |

**Minutes of the meeting**

## 1. Introduction and welcome

Prior to the meeting members enjoyed musical items from pupils of the school.

Councillor Bob Penrose Cabinet Member Learning and Culture for Vale of Glamorgan welcomed members to the Local Authority and in particular to Llantwit Major School. He gave thanks to the Headteacher Fiona Gravell for hosting both the NAPfRE meeting the previous day and the WASACRE meetings in this remodelled school.

Also, thanks were extended to Marged Williams Head of RE at the school for supporting the organisation of the day.

Cllr Penrose spoke of the challenging times of the new curriculum. He noted that RE's position needs to be made prominent as RE is a fundamental part of the curriculum and has enormous value. He referred to the need for SACREs to benefit from commitment, enthusiasm and skills and knowledge from all groups on the committee.

EE thanked Cllr Penrose for his warm welcome and reflections.

## 2. Quiet reflection

EE shared a tale of the Cariboo people that reiterates the need for peace across the world. Individuals can be collectively powerful if working together.

## 3. Apologies

Apologies were received from Rachel Samuel, Cllr Lyndon Lloyd, Janet Jones, Tania ap Sion, Dylan Rhys, Manon Jones.

## 4. Minutes of meeting held in Llangefni, 6th July, 2018

The minutes were accepted as a true record of the meeting.

## 5. Matters arising

Item 5. It was confirmed that since Carmarthen SACRE raised the issue of the necessity for bilingualism in all communication, everything sent out since the last meeting has been bilingual.

LJ to approach Lynda Maddock regarding a representative from WJEC. LJ has spoken to both Lynda Maddock and Andrew Pearce who have said they will do their best to attend both NAPfRE and WASACRE meetings. The importance of the need for WJEC representatives to attend NAPfRE and WASACRE to assist the very important communication process and for them to be fully aware of developments with the new curriculum was emphasised.

Item 6. Linda Rudge and REQM. PW reported that she had followed up on this. LTLRE funding has been withdrawn and been reallocated to a new project being undertaken by RE Today Services on behalf of Culham St Gabriels.

Four SACREs out of five that PW works with are keen to promote the REQM in their authorities. LJ reported that in Wrexham three schools per cycle could be funded to apply for the REQM award.

Item 7. Estyn Thematic Review. It was reported that NAPfRE will be responding to this report. LJ asked if WASACRE will be doing the same.

RT suggested that WASACRE does reply but as we rely on NAPfRE members for professional support in these areas, WASACRE could consider their report and adapt it to formulate a WASACRE response.

**Action:** Agreed for WASACRE to consider NAPfRE's response to Estyn and create their own response.

Item 9. The Secretarial Role has now been divided as hoped and all the individual roles have been covered amongst the Exec Committee.

Item 10. The conference proposed for 2019 is to be postponed due to a number of reasons until Autumn 2019. The.Catholic Education Service and Church in Wales will have a supporting Framework for their schools, therefore there will be three Supporting Frameworks in place in Wales. We will need two training sessions – one in Autumn 2019 followed by a launch of the Supporting Framework when available. We need to consider who would fund the conferences – first one to be funded by WASACRE but it would seem appropriate that the launch should be funded by WG.

Item 13. A WASACRE email address is in the process of being set up.

David Hampshire has extended an invitation to the Interfaith Network meetings.
The WASACRE logo has been updated on the Interfaith Network website.
RT suggested that WASACRE might enquire about whether WASACRE could have a place on the Network.

**6. NAPfRE Presentation:**

**Kevin Palmer, Welsh Government.**

**AoLE Specific Professional Learning in the New Curriculum**

Kevin outlined that his presentation would cover professional learning and not the curriculum at present. He would like another opportunity to return to WASACRE and offer a future presentation more specifically on RE in the new curriculum.

KP gave a definition of 'professional learning'.

He outlined the need to an 'entitlement' to professional learning and recognises that with an emphasis on literacy and numeracy and digital competence this needs to be addressed in order to accommodate other subjects including RE.

Providers need clearly stated design criteria to ensure consistency.

WG needs to be answerable and transparent about how the allocated funding is spent. WG have committed to £24 million investment into schools for professional learning.

There will be a national approach to professional learning with the pupil at the heart of the model. It has to make an impact on the pupils' learning otherwise it is not appropriate. Needs to link to the Four Purposes of the new curriculum.

KP highlighted key points from his PPT presentation which will be made available to WASACRE:

All professional learners are different and have different needs. Therefore, the professional learning needs to be highly individualised. Need to recognise different regions, local schools, national contexts.

We need to recognise what good pedagogy looks like for the professional learning model.

Accreditation and recognition of professional learning is being developed.

Professional Teacher and Leadership Standards have been updated.

Networks – research-based approach – shows that practitioners work best when they work across schools to support each other's professional learning.

Individual Professional learning journey – teachers need to be forward thinking about how their subject will develop in future years.

Professional Learning Pioneer Schools (almost 100) are evaluating the professional learning implications of developments in the new curriculum.

PW questioned how this will be quality assured. KP stated that this is Estyn's role. Consortia will also quality assure each other's work.

Concern was raised about commercial organisations 'waiting in the wings' to develop curriculum support material for the new curriculum. The message from Welsh Government will be that buying in a scheme of work or a ready-made curriculum will be deemed to be bad practice and not acceptable.

EW questioned the capacity of teaching staff and the resources available to support this thinking.

KP advised that £24 million is to go into schools over the next 18 months = £800 per teacher – if this money is used collaboratively i.e. pooled to maximise its effect in producing new materials and making use of INSET opportunities then it will be effective.

BP suggested that the funding is being taken from one area to support another area.

PW asked how WG plan to provide training when the expertise of RE specialists has been so diminished recently. KP offered to discuss further with WASACRE this area of concern and the need for this to be addressed and supported financially.

**Action:** PW to further discuss with KP the issue of diminished RE expertise.

**Manon Jones – Engagement with SACREs**

Manon had to give her apologies due to illness.

PW gave an update in her place. PW reported that responses from SACREs have indicated support for the idea of a 'Supporting Framework for RE' which will be funded by Welsh Government. This Supporting Framework could be adapted or adopted by SACREs to become their local Agreed Syllabus for RE.

Members viewed a presentation from Professor Donaldson which can be seen here:

https://www.youtube.com/watch?v=oQ-rX4besgw&feature=youtu.be

Following the series of meetings between WG and SACREs within each Consortia, PW advised that SACREs should respond as a committee rather than as individual members.

In January 2020 the final consultation document will be issued before the consultation ends in June/July 2020.

Concern was raised about the workload of teachers and how they could have time to not only continue teaching but also become familiar with the new curriculum and also be expected to be forward looking about how subjects will change and develop.

MM noted that we have just had a massive change with the GCSE and to expect teachers to take on more significant changes is a huge challenge.

TT reiterated the unrealistic demands on teachers and also that the £800 per teacher noted by KP earlier will not stretch far in terms of professional support. A Headteacher also stressed the need to consider teacher well-being and that this is crucial and should not be overlooked. She noted that there has never been such a time of shortage of funding for schools.

**7. Professional RE Support for SACREs / LAs**

EE reported that WASACRE had written to every LA in Wales asking for details of what level of support is provided to the SACRE in terms of professional RE support, administration (clerk) and education officer. It was noted that fifteen LAs responded with details. However, since this report the situation has changed in several authorities.

Mary Parry retired and is no longer in post in Carmarthenshire and no longer supports Pembrokeshire SACRE either. Central South Consortium now has no RE specialist support to cover the five SACREs, but does have Maggie Turford, who is an experienced educationalist.

LJ reported that NAPfRE has also approached the Directors of Education who do not have a designated professional adviser to SACRE to confirm who is providing that support.

The current situation for professional support for SACREs is:

Anglesey – Helen Bev, Head of RE at Ysgol David Hughes. It was noted that it is an unrealistic burden on practising full-time teachers to support a SACRE unless they are given adequate time to be released from their school duties to carry out the SACRE work.

Carmarthenshire - Marian Morgan is covering although is not the replacement for Mary Parry
Ceredigion - Alwyn Roberts
Conwy - no response
Gwynedd - no response
Flintshire - no response
Denbighshire – holding response
Pembrokeshire – Amanda Lawrence Primary School Headteacher
Powys – Sian Fielding, Challenge Adviser
Neath Port Talbot – Rachel Samuel, Head of RE has no additional time allocated other than to attend meetings.
Swansea - Jennifer Richards – allocated 15 days to support the SACRE.
Vale of Glamorgan, Rhondda Cynon Taf, Bridgend, Cardiff, Merthyr Tydfil (Central South Consortium) - newly appointed Maggie Turford who is not a specialist but an experienced educationalist.
Torfaen, Newport, Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire - EAS has appointed Paula Webber who is a RE specialist as a full time employee.
Wrexham – Dedicated RE advisor (4 days) provided by the Wrexham Parochial Educational Foundation.

RT noted that the Chair of Anglesey wrote to the Chief Exec of the Consortia regarding their concern that RE experts Bethan James and Phil Lord have been removed from providing support to SACRE by the consortia but no response has been received. He reported that Kirsty Williams' response is that this is an LA issue not a WG issue.

DT noted that even though the Central South Consortium has in fact an RE Specialist within its staff, she has not been utilised to cover the SACREs but instead a non-specialist has been newly recruited to cover the SACRE work.

LJ suggested that WASACRE writes to the relevant Consortia to ask why they are not providing specialist RE support to their LA SACREs. A letter could also be written to consortia to ask why they are not ensuring that they have RE specialist support for the SACREs, but noted that it is possible that this is not part of the agreement between the LAs and the Consortia and that LAs may not be paying for the Consortia to do so.

.

HW again reiterated the need for RE specialist support and noted that SACRE is reliant on the expertise of someone in the field of RE to deal with specific issues and not least in advising on the Agreed Syllabus and writing the Annual Report.

**Action:**

a) WASACRE to write to the Minister regarding this issue.

b) Take this as an item for discussion to the next meeting with WG in the spring.

c) Write to the consortia who do not provide specialist RE support to their LAs.

d) Write to LAs who do not have RE specialist support to SACREs.

## 8. Membership of WASACRE Executive

EE announced that Mary Parry has retired from her post with Carmarthenshire and so therefore is no longer a WASACRE Executive member. Carmarthenshire SACRE will be invited to nominate a replacement until 2019.

It was noted that as Gill Vaisey is no longer associated with a SACRE she is not eligible to continue as Vice Chair and therefore cannot become Chair of WASACRE at the next AGM. GV explained that Central South Consortium had suddenly, without any prior communication or consultation with herself, terminated her role as consultant to Cardiff SACRE.

In order to manage this unexpected situation, the Executive has suggested that the current Chair covers an additional year whilst a newly appointed Vice Chair from summer 2019 settles into the role.

It was noted that LJ has offered to act as Vice Chair until 2019 but this will be too onerous for her to actually take on in practice should she be asked to Chair a WASACRE meeting as well as a NAPfRE meeting the previous day.

DT suggested that it is not fair that one person takes on more responsibility.

RT suggested that members accept the proposal of the Executive Committee and that if required he would offer to chair a WASACRE meeting should the Chairperson not be available. TT suggested that it is necessary to attract more people to share these key roles.

AL offered to discuss with the Exec the possibility of her taking the acting Vice Chair role.

It was reiterated the need to ensure that the Exec committee is fully complete with persons who are able to be active members and effectively carry out the work of the committee.

It was agreed that GV will continue as REC representative and also as EFtRE representative for WASACRE.

PW will also become a third REC representative alongside Tania ap Sion who is currently also a representative.

## 9. Collective Worship

It was noted that the document prepared by EE on Collective Worship has been sent to SACREs. It was agreed to recommend to SACREs that they consider this paper at their next meeting.

**Action:** Recommend to SACREs that they agenda the paper on Collective Worship with a view to it being distributed to all schools in their local authority.

**10. Up-dates:**

1. Andrew Pearce – WJEC and A Level Feedback from 2018 results.

AP gave an overview of how the new GCSE is unfolding. He outlined the findings so far from the results and papers received. Many schools did not enter the GCSE specification this year.

The power point is available to secure centres and will be made available to WASACRE members.

It was noted that it is usual for Catholic Schools to allocate more curriculum time to RS to cover the GCSE specification and this may explain the evident positive results in Catholic Schools.

AP also talked through the A Level results noting that grades had improved this year by 2% increase compared with previous years. The number of entries had also increased this year in Wales whereas in England it has significantly declined.

The greatest uptake is that of the Buddhism paper. The Religion and Ethics compulsory paper achieved excellent results. The lack of available text books does not seem to have been detrimental on the results. A teacher pointed out at this stage that this has however impacted on the well-being of teachers who have had to compensate for the lack of books. AP advised that books will be available for the future.

'Share Space' is available as a resource for teachers. RE Online has useful videos showing the value of Religious Education as a subject.

AP concluded with congratulations to schools that have achieved such good results.

RT noted that Anglesey SACRE had complained that the wrong Welsh language RS examination paper had been given to candidates. AP noted that the situation was dealt with very effectively and that pupils were not disadvantaged and did not suffer any lesser grades as a result of the situation.

PW invited AP to future meetings and reiterated that this would be mutually beneficial to both WASACRE and WJEC.

2. Rudi Lockhart Commission on RE – the final document published 9th September 2018

RL gave an outline of the report and what the REC is doing about it.

He highlighted three areas.

1. New vision for the subject

The report proposes a new title for the subject - Religion and World Views. RL suggested this is not about the adding of 'world views' to the curriculum.

World views refers to the nature of the subject – that in exploring religion, world views around and within this will be explored.  It intends to encompass all that is good in religious education whilst recognising diversity and not being limited by boundaries

Page 12 and 13 cover the national entitlement and the key pages of the report but the whole document gives a much more rounded reading.

2. Legal Structure

The REC is to suggest names of persons who could write a non-statutory national programme of study with a view to this becoming statutory in the future.

Once the programme of study becomes statutory there would be no need to convene an Agreed Syllabus Conference.   There would be a choice for schools to choose whether to follow the national syllabus or a locally Agreed Syllabus.

SACREs could be re-branded to become Locally Advisory Networks

It is suggested that it is not feasible to remove the right of withdrawal from RE.

3. National plan for funding

The report proposes an increased number of hours for RE within teacher training to 12 hours – although it is recognised that this is still not enough.

The following general comment were shared.

There has been very positive responses to the report from most bodies.  There has been a limited number of critical responses mainly from three bodies – Board of Deputies of Jews, NASACRE and the Catholic Education Service

REC has been lobbying MPs at Westminster and everyone is encouraged to write to MPs via a template letter which is available from the REC.

There is a need to raise awareness of the report within the RE communities within SACREs and teacher networks.

There is a need to refine some of the ideas to ensure that everyone is on board.

LJ suggested that NAPfRE will be putting together a paper to consider what it can take from the report and share these with the WASACRE Executive.

RL stated that the name change has caused a lot of media coverage but in fact the subject name is not crucial as it is the context that is most important and significant.

***Closure of the meeting***

Due to traffic movement restrictions at the school the meeting finished at 3.48 p.m.

**11. WASACRE Website**

Not covered.

## 12. Report for the Executive Committee Meeting held 3rd October 2018

Not covered.

## 13. Correspondence

Not covered.

## 14. A.O.B.

Not covered.

## 15. Date for next meeting:

Spring 2019 – Cardiff 26th March

Summer 2019 – Conwy (date tbc)

EE expressed thanks to all those who had supported the meeting:

Headteacher Fiona Gravell, Marged Williams, Head of RE, and staff and pupils of Llantwit Major School

Jeremy Morgan, Clerk to Vale of Glamorgan SACRE

Councillor Bob Penrose Cabinet Member Learning and Culture for Vale of Glamorgan

Councillor Eddie Williams, Chair of Vale of Glamorgan SACRE

Maggie Turford, Consultant to Vale of Glamorgan SACRE

Stephan William, Translator

Kevin Palmer, Andrew Pearce and Rudi Lockhart for the presentations.